


CANU GWERIN

(FOLK SONG)

5/1982



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
THE WELSH FOLK — SONG SOCIETY

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH, 1981-82
THE OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE, 1981-82

Llywydd/*President*: Mr. W. EMRYS CLEAVER

Is-Lywyddion/*Vice-Presidents*:

Dr. MOSTYN LEWIS, Mrs. K. IDWAL JONES, Dr. OSIAN ELLIS,
Y Fonesig/*Lady* AMY PARRY-WILLIAMS, Y Fonesig/*Lady* ENID
PARRY, Mr. E. BENNETT OWEN.

Cadeirydd/*Chairman*: Dr. MEREDYDD EVANS

Is-Gadeirydd/*Vice-Chairman*: Dr. HYWEL GRIFFITHS

Pwyllgor Gwaith/*Executive Committee*:

Mrs. EUNICE BRYN WILLIAMS, Mrs. G. MEGAN TIBBOTT,
Mr. ALUN DAVIES, Mrs. MARGARET OWEN,
Miss PHYLLIS KINNEY, Miss J. EIRIAN JONES,
Mr. DANIEL HUWS, Mr. W. REES HOWELLS,
Mr. ROBIN GWYNDAF, Mr. WYN THOMAS,
Miss MENNA THOMAS, Mr. JACOB MORGAN,
Mr. ARNOLD V. DAVIES, Miss MEINIR JONES

Trysorydd/*Treasurer*:

Mrs. FRANCES MÔN JONES,
Coed y Garth Lwyd, Llanfair Caereinion, Powys.
Ffôn: Llanfair Caereinion (093 882) 545

Cyfarwyddwr Ariannol/*Financial Adviser*:

Mr. GWILYM OWEN,
Banc y Midland, Caernarfon.
Ffôn: Caernarfon (0286) 3304

Ysgrifennydd Cyffredinol/*General Secretary*:

Mrs. BUDDUG LLOYD ROBERTS,
Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth (076 671) 2096


Ysgrifennydd Aelodaeth/*Membership Secretary*:

Mrs. ALWENA MORGAN,
Glan Mawddach, Y Ganllwyd, Dolgellau.
Ffôn: Y Ganllwyd (034 140) 635

Golygydd y Cylchgrawn/*Editor of the Journal*:

Mr. D. ROY SAER,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.
Ffôn: Caerdydd/Cardiff (0222) 569441

Archwiliwr/*Auditor*: Mr. H.F.J. CADWALADER



CANU GWERIN (FOLK SONG)

5/1982

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Golygyddol/ <i>Editorial</i>	3
Cyfranwyr/ <i>Contributors</i>	4
"Twill Bach y Clo" ... MEREDYDD EVANS (<i>"The Little Keyhole"</i>)	5
Torri Monopoli yr Eisteddfod ... ARFON GWILYM (<i>Breaking the Monopoly of the Eisteddfod</i>)	9
Ethnogerddoreg ym Mangor ... WYN THOMAS (<i>Ethnomusicology at Bangor</i>)	12
Llên Gwerin a Defod a Chân ... D. ROY SAER (<i>Folk Lore and Ritual and Song</i>)	19
Caneuon Gwerin Cymraeg yn Y Wladfa ... SHÂN EMLYN (<i>Welsh Folk Songs in Patagonia</i>)	33
1. Ffinistr, Ffanastr!	41
2. Y Saith Rhyfeddod	42
3. Mynwent Eglwys	43
4. Y Gwew Fach Lwydlas	44
5. Tair Cath Fechan	45
Caneuon Ychwanegol/ <i>Additional Songs</i> ... PHYLLIS KINNEY	
6. Cainc yr Aradwr	47
7. Gwranddo, 'r Deryn Du Adeiniog	48
8. Ymddiddan rhwng Mab a Merch Ieuanec	49
Newyddion Cwta/ <i>News in Brief</i>	50
Rheolau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru	51
<i>The Rules of the Welsh Folk-Song Society</i>	52

Y Cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of their Contributors. Opinions expressed in the journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd/*Editor*: D. ROY SAER —

Adran Llên Gwerin, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.
Department of Folklore, Welsh Folk Museum, St. Fagans, Cardiff.



Cysodi: Mei/Argraffu: Argraffdy Arfon

Llun clawr (trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru):
Abel Jones, “Bardd Crwst” (1830-1901), “yr olaf o’r baledwyr mawr” yng
Nghymru.

Cover photograph (by courtesy of the National Library of Wales):
Abel Jones, “Bardd Crwst” (1830-1901), “the last of the great ‘ballad’
writers/singers” of Wales.

GOLYGYDDOL

Peth tra chalonogol, y dyddiau hyn, yw gweld cynyddu ar y cyfrolau “cyfresol” ym maes canu gwerin Cymru. Ers blynyddoedd bu gennym, ar wahân i Gylchgrawn y Gymdeithas hon, amryw gyfnodolion perthnasol: *Dawns* (Cymdeithas Ddawns Werin Cymru), *Allwedd y Tannau* (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru), *Cerddoriaeth Cymru* (Yr Urdd er Hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru) a'r cylchgrawn pop Cymraeg *Sgrech*. Eleni fe gychwynnir dau gyhoeddiad newydd, sef *Ysgrifau Cerddorol*, o dan olygyddiaeth Wyn Thomas, a'r cylchgrawn *Taplas*, y naill yn academiaidd ac achlysurol a'r llall yn boblogaidd a chwarterol. Ofer chwilio am ffiniau pendant rhwng y rhain oll o ran eu cynnwys — droeon fe redant i'r un meysydd — ond y mae'n debyg y gellir i raddau helaeth wahaniaethu rhyngddynt o ran *canolbwynt* eu diddordeb neu natur eu cynulleidfia. Wrth groesawu'r ddau newydd-ddyfodiad a chliriannu eu swyddogaeth, mae'n briodol inni adlewyrchu mai ar hyd rhyw fath o lwybr canol rhwng yr ysgolheigaidd a'r llyngol y ceisir anelu ein Cylchgrawn ninnau, i ateb priod amcanion y Gymdeithas.

Yn ein cyhoeddiad presennol, rhaid fu torri'r siwt yn ôl y brethyn. Effeithiwyd ar gydbwysedd y rhifyn o ran cynnwys ac iaith gan absenoldeb un erthygl Saesneg na ddaeth i law, a chyfyngwyd ar ei faint yn wyneb costau argraffu, fel na fedrwyd am y tro wireddu'n breuddwyd i ymestyn arno. Fe'n hatgoffir, yn hyn o beth, y byddai bodolaeth y Cylchgrawn fel cyhoeddiad cyson yn dra bregus onibai am haelioni blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru, a chydabyddwn yn ddiolchgar dderbyn ei gymorth ariannol eleni eto.

EDITORIAL

It is extremely heartening, in these times, to find an increase in the periodical publications within the field of Welsh folk music. Some relevant contributions, in addition to the Journal of this Society, have been appearing for years: Dawns (Journal of Welsh Folk Dance Society), Allwedd y Tannau (Journal of Cymdeithas Cerdd Dant Cymru), Welsh Music (Journal of the Guild for the Promotion of Welsh Music), and the Welsh-language pop-music magazine Sgrech. This year, however, sees two new arrivals, Ysgrifau Cerddorol (Musicological Essays), edited by Wyn Thomas, and the folk-music magazine Taplas, the one academic and occasional, the other popular and quarterly. It would be a vain academic exercise to attempt to neatly pigeonhole all these publications according to content — time and again their tracks intersect — but a broad differentiation of identity seems feasible enough according to their respective cores of interest and the make-up of their audiences. In welcoming both newcomers, and contemplating their function, it is timely to reflect that in seeking to implement the declared aims of the Society, our own Journal attempts to steer some sort of middle course between the scholastic and the popular.

In the case of the present publication, the cloth has dictated the nature of the suit. The balance of this issue in content and language was affected by the non-arrival of one contribution in English, and its length curtailed by higher printing costs, so that its hoped-for extension has been shelved for the time being. In this connection, it needs to be borne in mind that the very existence of our Journal as a regular publication might be in jeopardy without the annual generosity of the Welsh Arts Council, and we gratefully acknowledge receiving its financial aid yet again.

CYFRANWYR/CONTRIBUTORS

MEREDYDD EVANS

Aelod o staff yr Adran Efyrdiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Cadeirydd presennol y Gymdeithas. Datgeiniad, beirniad eisteddfodol, ymchwilydd a darlithydd ym maes canu gwerin Cymru.

A member of staff of the Department of Extramural Studies, University College, Cardiff. Currently Chairman of the Society. A singer, eisteddfodic adjudicator, researcher and lecturer in the field of Welsh folk music.

ARFON GWILYM

Newyddiadurwr ar staff "Y Cymro". Cynhyrchodd lawer o ysgrifau ac adolygiadau ym maes canu gwerin Cymru ac y mae ganddo ei hunan brofiad helaeth o ganu caneuon gwerin, baledi a charolau, ac o ganu penillion.

A journalist with "Y Cymro" newspaper. Has produced numerous articles and reviews in the field of Welsh folk music and is himself an experienced singer of folk songs, ballads, carols and penillion.

WYN THOMAS

Er 1981 yn ddarlithydd mewn Ethnogerddoreg (gyda sylw arbennig i Gerddoriaeth Draddodiadol Gymreig) yn yr Adran Gerddoriaeth, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Lluniodd lyfrydiaeth i Gerddoriaeth Draddodiadol Gymreig a dwy gyfrol o ysgrifau cerddoregol i'w cyhoeddi.

Since 1981 a Lecturer in Ethnomusicology (with special reference to Welsh Traditional Music) in the Department of Music, University College of North Wales, Bangor, Gwynedd. Has compiled a bibliography of Welsh Traditional Music and edited two volumes of musicological writings for publication.

SHÂN EMLYN

Cyn-aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas. Wedi gyrfa ddisglair yn yr Academi Frenhinol, cafodd lwyddiant mawr fel datgeiniad canu gwerin mewn eisteddfodau, a chyfrannodd wedi hynny fel beirniad. Ers llawer blwyddyn cymerodd ddiddordeb arbennig yn niwylliant Y Wladfa yn Yr Ariannin.

A former member of the Society's Executive Committee. Following a brilliant career at the Royal Academy she became outstandingly successful as an eisteddfodic folk-singer, and has later contributed as an adjudicator. For several years she has taken particular interest in the culture of the Welsh-descended colony in Patagonia, Argentina.

PHYLLIS KINNEY

Gynt yn Diwtor Canu yn yr Adran Gerddoriaeth, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas hon a'r Urdd er Hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru. Datgeiniad, beirniad eisteddfodol, ymchwilydd a darlithydd ym maes canu gwerin Cymru.

Formerly Tutor in Singing, Music Department, University College, Cardiff. Member of the Executive Committee of this Society and the Guild for the Promotion of Welsh Music. A singer, eisteddfodic adjudicator, researcher and lecturer in the field of Welsh folk music.

“TWLL BACH Y CLO”
(“*The Little Keyhole*”)

Meredydd Evans

Un o'r cerddi a ddysgais ar yr aelwyd gartref ac yn y gymdeithas o'm hamgylch, pan oeddwn fachgen yn Nhanygrisiau, oedd “Twll Bach y Clo”, ac arferai fy mam ei chanu gyda chytgan ar ôl pob pennill, gan ofalu hefyd ganu'r pennill olai. Dychwelaf at y pwyntiau hyn yn nes ymlaen. Yn y cyfamer y mae'n werth sylwi nad oedd J. Lloyd Williams yn hollol dawel ei feddwl ynglŷn â'i chynnwys ymhlith ein caneuon gwerin. Dengys hyn ei ragoriaeth fel golygydd, oherwydd gŵr oedd ef a fynnai drin ei fater yn wyddonol, wrthrychol. Ond ei chyhoeddi a wnaeth, a hynny yng Nghyffrol 4, Rhif 1, o Gylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

Daeth y fersiwn arbennig a gyhoeddwyd yno oddi wrth Ifan ab Owen Edwards, a thebyg iddi gael ei nodi ym Meirionnydd. Ond y mae'n amlwg y gwyddai J. Lloyd Williams am fersiwn arall wahanol o Arfon, a genid, meddai, ar y dôn Seisnig “Ring the Bells Watchman”, a dichon mai hyn a barodd iddo betruso rhag ei chyflwyno fel alaw werin. Ofnai weld cynnwys alaw a gyfansoddwyd gan gyfansoddwr gweddol ddiweddar ymhlith corff yr alawon gwerin.

Beth a dorrodd y ddadl iddo? Dyma frawddeg agoriadol y nodyn eglurhaol a gynhwysodd yn y Cylchgrawn:

I hesitated about including this song in the Journal, but finally decided that its popularity, in N. Wales especially, having made it truly traditional, there ought to be a record of it.

Sylwer ar y maen prawf — 'roedd ei phoblogrwydd wedi ei gwneud yn draddodiadol.

Ond diamau bod rhagor mewn golwg gan J. Lloyd Williams na phoblogrwydd y gân fel y cyfryw, hynny yw, poblogrwydd dros ryw un cyfnod penodedig. Nodwedd arall, ac ychwanegol, ar boblogrwydd cân i'r golygydd cydwybodol hwn oedd y ffaith *ei bod yn cael ei throsglwyddo ar lafar, o un genhedlaeth i'r llall*. Dyma galon y mater. Mynnai rhai ardaloedd ei chadw o gyfnod i gyfnod, a hon oedd y ffactor “draddodiadol” allweddol. Y mae'n werth pwysleisio hyn rhag inni gymysgu'n rhy rwydd rhwng cân werin a chân boblogaidd. Fel y gwyddom yn well heddiw nag erioed, o bosib, gall cân fod yn eithriadol o boblogaidd am ychydig wythnosau yn unig ac yna fynd mor farw â hoel; a da hynny, ar lawer cyfrif! Byr eu hoedl, ar y gorau, yw campweithiau y siartiau. Ond efallai y bydd rhai ohonynt fyw ymhell wedi i'w hawduron a'u cyfansoddwyr ddiflannu o olwg y cyhoedd ac y bydd rhieni fory yn eu canu i'w plant, a'r rheini yn eu tro yn eu cyflwyno i'w plant

hwythau. Dyna'r gadwyn geidwadol, ac fel dolen yn honno y gwelai J. Lloyd Williams "Twl Bach y Clo".

§

Sylwn yn gyntaf ar yr alaw. Mae'n amlwg nad oedd E.T. Davies yn gwybod am ei tharddiad ond teimlai ef yn sicr bod naws Gymreig iddi: "I suggest," meddai yn y Cylchgrawn, "that this is derived from a Scotch, or possibly an Irish tune". 'Roedd yn weddol agos i'w le. Gwelsom i J. Lloyd Williams gyfeirio at fersiwn Arfon fel cân Seisnig; nid oedd yntau, 'chwaith, ymhell o daro deuddeg.

Ond nid ym Mhrydain y cychwynnodd ar ei thaith. Alaw yw hi a gyfansoddwyd gan un o gyfansoddwyr poblogaidd America yn y ganrif ddiwethaf, gŵr o'r enw Henry Clay Work (1832-84). Daeth ei ganeuon yn boblogaidd iawn yn ystod Rhyfel Cartref yr Unol Daleithiau, ddwy ohonynt yn neilltuol felly, sef "Wake, Nicodemus" a "Marching through Georgia". Ef hefyd a gyfansoddodd "My Grandfather's Clock", ac un gân sentimental arall a ddaeth i fri mawr gyda'r Mudiad Dirwest yng Nghymru o dan y teitl "Dewch Adref, Fy Nhaf". Mynyddog a gyfieithodd eiriau honno i'r Gymraeg a chyhoeddwyd y gân gyfan yn *Ceinion y Gân*, casgliad o ganeuon a oedd mor amlwg, bron, ar silffoedd ein cyndadau â *Songs of Wales* Brinley Richards.

Eithr mewn casgliad bach arall y cyhoeddwyd "Ring the Bells Watchman" yng Nghymru am y tro cyntaf, a hynny dan y teitl "Clywch y Floedd, Fechgyn". Casgliad mewn pedwar rhifyn oedd hwnnw, a gyhoeddwyd gan E. Yltyr Williams ac a alwyd ganddo yn *Caneuon y Bobl*. Hyd y gwelaf, Yltyr Williams ei hun a gyfansoddodd eiriau "Clywch y Floedd, Fechgyn" ond mae'n gofalu nodi, yn ddigon clir, o b'le y cafodd yr alaw. Dyma fel y cyfeirir at y ffynhonnell: "*Musical Bouquet, No. 3936*", ac nid oedd y gân arbennig hon ond un o gyfres enfawr o ganeuon poblogaidd Seisnig a gyhoeddwyd, bob yn daflen, gan C. Sheard, Musical Bouquet Office, 192 High Holborn, Llundain.

Wedi gweld y cyfeiriad hwn anfonais am gopi o'r rhifyn perthnasol at Yr Amgueddfa Brydeinig a derbyniais un gyda'r troad. O'i ystyried daeth yn amlwg nad cyfieithu geiriau Work a wnaeth Yltyr Williams ond, serch hynny, fe gadwodd yn eithaf agos at naws y geiriau gwreiddiol. Cadwodd yn ffyddlon, yn ogystal, at *ffurf* y gân wreiddiol, gan ofalu cynnwys y cytgan. Wele un pennill ganddo:

Fry, fry yn uchel, anrhydedd a bri
Floeddiant yn wastad "Pwy ddaw atom ni?"
Yma mae'r parch a'r gogoniant i gyd,
Dringwch, dringwch i'r fan hyn drigolion y byd:

Cytgan:

Clywch y floedd fechgyn! Clywch, clywch, clywch,
Fry, fry ymddyrchwn yn uwch ac yn uwch,
Fry mae doethineb yn galw ar g'oedd,
Fry mae coron anfarwoldeb, clywch, clywch y floedd.

§

Dywedais ar gychwyn hyn o lith y byddai fy mam yn ddieithriad yn canu
“Tyll Bach y Clo” gan ychwanegu cytgan at bob pennill — a hwnnw'n un
pur anghyffredin, nad oedd i'w gael gyda'r geiriau gwreiddiol, fel y cawn
weld yn nes ymlaen. Dyma'r cytgan hwnnw:

Clywch y gân, ferched, clywch, clywch, clywch,
Mae'r cathod yn mewian yn uwch ac yn uwch,
Mae cŵn y drws nesa' yn myned o'u co'
A Huwcyn bach yn sbecian trwy dwll bach y clo.

Mae'n debygol mai ar ffurf geiriau Ylltyr Williams y seiliwyd y cytgan
cathod-a-chŵn hwn ond sut ar wyneb daear y daeth y creaduriaid hyn i mewn
i'r gân? Nid yw'n beth anghyffredin mewn canu gwerin i weld cymysgu un
gân ag un arall, a dyna, mae'n ddiamau, a ddigwyddodd yn yr achos hwn.
Ond pa gân arall?

Bu hyn yn ddirgelwch i mi am hir nes i gyfeilles imi o'r hen ardal, Menna
Williams, fy ngosod ar ben y ffordd. Bûm yn sôn am y gân mewn rhaglen
radio rywbryd, gan gyfeirio at y cytgan hwn — a'i ganu, mae'n debyg.
Ymhen deuddydd neu dri cefais lythyr oddi wrth Menna yn cynnwys y
wybodaeth hon:

Os dalltis i'n iawn, 'roeddech yn deud bod eich mam yn arfer canu
fersiwn â chytgan iddi a hwnnw'n crybwyll am gathod. 'Roeddwn
innau'n gyfarwydd â'r alaw, a'r geiriau fyddai 'nhad yn ganu pan o'n i'n
hogan bach oedd —

Bu farw cath Modryb,
Bu farw cath Gwen,
Bu farw'n cath ninnau
Dan gur yn ei phen;
Mae cath yn tŷ nesa'
Yn wael o'r un clwy,
Mae melltith wedi dyfod
Ar gathod y plwy.

A dyna'r cyfan, heb gytgan. Ond tybed a oedd y pennill hwn yn rhan
o'r un gân ag eiddo'ch mam? 'Roedd fy nhad yn ddeg oed pan ddaeth y

teulu i 'Stiniog o Harlech a chan ei fam mae'n debyg y byddai yntau wedi dysgu'r geiriau, ac efallai bod 'na fersiwn am anifeiliaid yn perthyn i arfordir Sir Feirionnydd.

Yrŵan, nid oedd y pennill hwn yn rhan o'r gân a ganai fy mam; penillion arferol "Twill Bach y Clo" a ganai hi, ond y mae'r wybodaeth yn llythyr Menna yn dra awgrymog. Tybed nad oedd cytgan efo'r pennill uchod gan rywun yn rhywle? Byddai'n naturiol i ganu cytgan y cathod-a'r-cŵn gyda hwnnw, ac wedi i hwnnw ddod i fod ni fyddai'n broses mor anghyffredin â hynny iddo'i ddatgysylltu ei hun oddi wrth yr hen bennill gwerin a chael ei hun yn ddiweddarach yn rhan o saga Huw cyn a thwll bach y clo. Pethau felly sy'n digwydd, fel y dywedais, ym myd canu gwerin.

§

Beth, bellach, am *eiriau* "Twill Bach y Clo" fel y cyfryw? Pwy a'u cyfansoddodd nhw? Fy nghyfaill Roy Saer, o Amgueddfa Werin Cymru a'm gosododd ar drywydd yr awdur. John Williams (1811-91), neu "Glanmor", oedd hwnnw, athro ysgol, clerigwr a hynafiaethydd a anwyd yn Y Foryd ger Y Rhyl. Ceir nodyn arno yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* gan Frank Price Jones a dyry ef le anrhydeddus iddo fel hanesydd tref Dinbych. Bu'n barddoni cryn dipyn yn y mesurau caeth a rhydd a chyhoeddodd un gyfrol o'i gynnyrch yn 1865. Yno, yn *Gwaith Glanmor*, y cynhwyswyd "Twill Bach y Clo" am y tro cyntaf, a dyma'r manylion llawn am y gyfrol honno — y byddai'n dda gennyf gael gafael arni! A oes rhywun yn gwrando tybed?

Gwaith Glanmor: yn cynnwys: Hanes Cerddoriaeth Gyssegredig, yn cael ei egluro a thonau a darluniau: yn ghyda Chaniadau Amrywiaethol Cymreig, &., &., John Williams (Glanmor) M.R.C.P. Awdwr "Ancient and Modern Denbigh", & Gwrecsam: Argraphwyd gan R. Hughes a'i Fab, Heol Estyn.

[Ymddangosodd yr ysgrif uchod gyntaf yng nghylchgrawn *Y Casglwr*, Rhif 15 (Y Nadolig, 1981), a diolchir i'r Golygydd, John Roberts Williams, am ganiatâd i'w hatgynhyrchu yma. Gol.]

[The cosy and almost naive, but not wholly unimaginative, courtship-song called "Twill Bach y Clo" ("The Little Keyhole") was widespread in oral tradition in Wales around the beginning of this century. An earlier Editor of the present Journal, Dr. J. Lloyd Williams, published it on the ground that its wide and continuing currency had made it "truly traditional" — but had hesitated over doing so, since he regarded its tune, "Ring the Bells, Watchman!", as of English and perhaps relatively recent origin. Dr. Meredydd Evans, above, pinpoints the mid-Victorian derivation of both tune and text: the former being by the American popular-song writer Henry Clay Work (who also composed "Marching Through Georgia" and "My Grandfather's Clock") and the latter by a Welsh cleric John Williams, a native of Rhyl, in Clwyd. Within Dr. Evans's own early experience of the song — at Tanygrisiau, Merioneth — the "Twill Bach y Clo" verses were complemented by a nonsensical chorus — which, it is speculated above, might well have originated alongside a familiar and not altogether elegiac rhyme about dead or dying cats! Ed.]

TORRI MONOPOLI YR EISTEDDFOD *(Breaking the Monopoly of the Eisteddfod)*

Arfon Gwilym

Un o'r pethau mwyaf calonogol sydd wedi digwydd yn ddiweddar yn sgil poblogrwydd cynyddol grwpiau gwerin, ac yn arbennig yn sgil llwyddiant mawr Gŵyl Werin Dolgellau, yw fod y monopoli eisteddfodol o'r diwedd yn cael ei dorri.

Byddai llawer yn dadlau mai'r eisteddfodau a fu'n bennaf gyfrifol ar hyd y blynyddoedd am boblogeiddio'n caneuon gwerin, drwy ddod â nhw i sylw cynulleidfâ eang flwyddyn ar ôl blwyddyn. Hwyrach, wir. Ond y mae yna nifer o bethau ynglŷn ag eisteddfodau sydd, yn fy marn i, wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les.

§

Mae yna'r fath beth â Chanu Gwerin Eisteddfodol i'w gael erbyn hyn — canu ffurfiol, cywir, gofalus. Dilynir y copi yn fanwl a chollir marciau os cenir nodau gwahanol yma ac acw neu os cenir fersiwn wahanol o'r geiriau. 'Does dim amheuaeth ynglŷn â thlysi'r lleisiau, ac nid cyd-ddigwyddiad yn hyn o beth yw mai merched yw'r cystadleuwyr naw gwaith allan o ddeg. Y perygl mawr, wrth gwrs, yw fod gwir ysbryd y traddodiad gwerin yn cael ei golli a bod y perfformiadau yn mynd yn debycach i "solo" glasurol nag i gân werin.

§

Mae'r un peth yn union wedi digwydd ym myd cerdd dant. 'Does ond angen gwrando ar bobl fel "Telynores Eryri", Eddie Roberts, Llanerfyl, neu Einion Edwards, Llanuwchllyn, i sylweddoli fod eu math nhw o ganu penillion wedi mynd allan o ffasiwn yn llwyr erbyn hyn.

Cyfuniad o farddoniaeth gywrain a gosodiadau celfydd yw cerdd dant bellach. 'Does dim o'i le yn hyn, wrth gwrs. Yn wir, hyfrydwch yw gwrando ar y partïon a'r unigolion hynny sydd wedi perffeithio'r grefft yng Nghymru heddiw. Ond y drwg yw fod hynny bellach wedi lladd y canu ffwrdd-â-hi a'r penillion talcen slip. Dyna'r math o gerdd dant y byddech yn ei glywed bron yn diethriad mewn nosweithiau llawen ers talwm, gyda'r canu mwy "parchus" yn cael ei gyfyngu bron yn llwyr i'r eisteddfodau.

Bellach, dim ond y canu penillion eisteddfodol a glywir — ar wahân i chyhydig o eithriadau fel a enwyd uchod — ac mae hynny'n bechod. Os gall

Dafydd Iwan ganu am “Fari Fawr Trelech” ac am “Y Dyn Pwysig” i gyfeiliant gitâr, pam na ellir gwneud rhywbeth tebyg i gyfeiliant y delyn?

§

Mae un peth yn siwr: os ydym am symud i'r cyfeiriad hwnnw gallwn anghofio am ein heisteddfodau. A dyna pam fod llwyddiant Gŵyl Werin Dolgellau, a'r gobaith sicr y bydd yn tyfu o nerth i nerth yn ystod y blynyddoedd nesaf, yn beth mor galonogol.

Heb os nac onibai, awyrgylch anffurfiol yw cartref ysbrydol traddodiad gwerin unrhyw wlad, ac nid awyrgylch ffurfiol cystadleuaeth mewn eisteddfod dan lygad llym y beirniad. Ar wahân i'r cythraul canu a'r dal dig sy'n rhwym o ddigwydd ym myd cystadlu, mae yna rywbeth yn sylfaenol annheg mewn datgan ar goedd mai ail orau neu drydydd orau yw rhai cantorion ac nad oedd y gweddill yn ddigon da i ddod i'r llwyfan hyd yn oed! Chwaeth bersonol un dyn sy'n penderfynu pwy yw'r canwr gorau, ac mae gan feirniaid eraill a'r gynulleidfa berffaith hawl i anghytuno.

Gogoniant gŵyl anghystadieuol yw nad oes raid i neb gyhoeddi'n swyddogol o'r llwyfan “Mae'r grŵp yma yn well na'r grŵp acw” neu “Hwn yw'r canwr gorau”. Mae rhyddid i bawb fynd a dod. Os nad ydych am wrando ar grŵp neu ganwr arbennig gellwch fynd allan i nôl paned o de neu rywbeth cryfach. Ac os na chawsoch wahoddiad i ganu yn y sesiynau swyddogol, mae digon o gyfle i bawb arddangos ei ddawn yn y sesiynau answyddogol. 'Does neb yn cael cam gan y beirniad. 'Does dim tyndra dan yr wyneb. Cyd-ganu, cyd-ddawnsio a chyd-fwynhau yw nod y perfformwyr ac nid ceisio cael y llaw uchaf ar ei gilydd.

§

Efallai fy mod yn gwneud cam â'r eisteddfodau. Wedi'r cyfan, gwnaethant fwy nag unrhyw sefydliad arall, ar lefel leol a chenedlaethol, i warchod ein diwylliant. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd maent yn dal eu tir yn rhyfeddol o dda, yn wahanol i nosweithiau llawen, sydd wedi prinhau yn arw ers rhai blynyddoedd bellach. Ond mae cystadlu wedi tyfu yn rhan rhy bwysig o lawer iawn o'n diwylliant gwerin. Am hynny dylem i gyd groesawu â breichiau agored unrhyw ymgais i dorri'r monopoli eisteddfodol ac i greu cyfryngau gwahanol sy'n fwy cydnaws â'n gwir draddodiad — ac sy'n debycach o lawer yn y pen draw o roi bywyd newydd yn y traddodiad hwnnw fel y gellir ei drosglwyddo i'r cenedlaethau a ddaw.

[Cyhoeddwyd yr ysgrif uchod gyntaf yn “Y Cymro”, rhifyn 18 Medi 1979, a diolchir i'r Golygydd, Llion Griffiths, am ganiatâd i'w hatgynhyrchu yma. Gol.]

[The above was originally published in "Y Cymro" newspaper in September 1979, but is reproduced here since it raises some issues of continuing, and even increasing, relevance which have never been aired in the Journal of this Society.

Within the Welsh-language scene, folk-song clubs and non-competitive folk-music festivals are only very recent arrivals. During the present century, that more formal institution, the eisteddfod, has dominated the performance of Welsh folk-music. Arfon Gwilym, above, while acknowledging the immense contribution of the eisteddfod within our folk-culture, fervently welcomes the later development. In some directions, he contends, the influence of the eisteddfod has been detrimental. Its competitive basis has manufactured a recognisably "eisteddfodic" rendering of folk-song: book-bound, carefully vocalised, and almost invariably female-performed. In penillion-singing, again, traditional informality and spontaneity have been replaced by refined verse and technically sophisticated arrangements.

The phenomenon of competition, it is argued, is contrary to true folk tradition, it breeds tension, antagonism and resentment, and is intrinsically unjust in that it invites the imposition of a seemingly absolute hierarchy of excellence (or incompetence) according to a single critic's personal taste. Competition, however, has become too prominent an element by far within Welsh culture. Ed.]

ETHNOGERDDOREG YM MANGOR

(*Ethnomusicology at Bangor*)

Wyn Thomas

[*Trafodir yma y cwrs newydd mewn Ethnogerddoreg — gan roi sylw arbennig i Gerddoriaeth Draddodiadol Gymreig — a gynigir gan Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Gol.*]

Y mae cryn chwilfrydedd y dyddiau hyn ynglŷn ag Ethnogerddoreg ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y maes. Er y gellid olrhain ei gwreiddiau yn ôl dros tua chan mlynedd, dim ond o fewn y deg neu bymtheng mlynedd diwethaf, dan ddylanwad ysgolheigion iau, y bu iddi garlamu ymlaen. O ganlyniad, cafwyd ymwybyddiaeth newydd o'i chyfrifoldebau ac ymdrech barhaus i ddod i wir ddealltwriaeth o'r hyn ydyw a'r hyn a wna a'r amcanion sydd ganddi mewn golwg.

Bu i Ethnogerddoreg ddwy ran cwbl ar wahân, sef y cerddoregol a'r ethnolegol, ac efallai mai ei phrif broblem yw'r modd unigryw y ceisir unol o'r ddwy agwedd heb orbwysleisio'r naill na'r llall, ond gan gymryd y ddwy i ystyriaeth. Adlewyrchir natur ddeublyg y maes yn y modd yr ysgrifennir amdano, oherwydd tra gwelir un ysgolhaig yn ysgrifennu'n dechnegol am adeiladwaith sain y gerddoriaeth fel system ynddo ef ei hun, y mae un arall yn trafod y gerddoriaeth fel rhan weithredol o ddiwylliant dyn ac fel rhan annatod o gyfanrwydd ehangach. Gellir olrhain tarddiad y maes i 80au a 90au'r ganrif ddiwethaf ac i wledydd Yr Almaen a'r Unol Daleithiau yn fwyaf arbennig, pryd yr ymddangosodd gyntaf y natur ddeublyg honno sy'n gysylltiedig ag Ethnogerddoreg. Ar y naill law gwelwyd carfan o ysgolheigion yn canolbwyntio'n gyfangwbl ar astudio sain cerddoriaeth, tra ar y llall bu amryw yn ceisio olrhain tarddiad cerddoriaeth — yn unol â meddylfryd yr oes.

Yn wyneb y ddeuoliaeth hon, nid syndod yw canfod bod diffiniadau'r maes, yn ogystal ag ymdriniaethau mwy cyffredinol, yn gwahaniaethu'n sylweddol. Y broblem bennaf gyda'r diffiniadau hyn yw eu bod yn trin Ethnogerddoreg nid fel dull a chyfrwng o astudio ond yn hytrach fel maes sy'n hawlio sylw, a hynny'n unig oherwydd arbenigrwydd yr ardal/y wlad/y genedl a astudir. Pwysleisir y lle yn hytrach na'r cwestiynau *Sut?* a *Phaham?*

Rhydd Ethnogerddoreg ei chyfraniad unigryw wrth ymdrechu i gyfuno agweddau ar y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau — heb roddi blaenoriaeth i'r naill na'r llall. Gwelir bod hyn ynghudd yn y diffiniad mai astudiaeth o gerddoriaeth yn ei chyd-destun diwylliannol a chymdeithasol yw Ethnogerddoreg.

Fel mewn unrhyw faes astudiaeth arall y mae tri cham, yn fras, i waith y cerddoregwr, ar ôl y cynllunio a'r paratoi ymlaen llaw ar gyfer y prosiect sydd dan sylw. Y cam cyntaf yw casglu data, ac ym myd Ethnogerddoreg golyga hyn "waith maes" (boed hynny yma yng Nghymru neu yn rhannau pellennig Gogledd Appalachia). Yn ail, unwaith y casglwyd y data, bydd yr Ethnogerddoregwr yn mynd ati i'w dadansoddi mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, casglu'r deunyddiau ethnograffig ac ethnolegol yn gorff trefnus o wybodaeth am arferion, ymddygiad a syniadau yn ymwneud â cherddoriaeth yn y gymdeithas a astudir. Yn ail, dadansoddi sain y gerddoriaeth a gasglwyd mewn modd clinigol a thechnegol, ac ar gyfer hyn y mae angen technegau arbennig, ac weithiau offer arbennig, ar gyfer trawsysgrifo'r gerddoriaeth a dadansoddi'i hadeiladwaith.

Yn drydydd cam, defnyddir y data a ddadansoddwyd a'r canlyniadau a gafwyd i bwrpas datrys gwahanol broblemau, ym maes Ethnogerddoreg ei hun ac yn ehangach yn y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau. Yn hyn o beth, nid yw Ethnogerddoreg yn wahanol iawn i ddisgyblaethau eraill. Yn hytrach, y mae Ethnogerddoreg yn unigryw oherwydd y technegau arbennig a ddefnyddir, ac efallai yn arbennig oherwydd yr angen i astudio gyda'i gilydd ddau fath o ddata — yr anthropolegol a'r cerddorol.

Nid yw Ethnogerddoreg, fwy na'r system Brifysgol, yn ddigon sefydlog i'w hachub hi ei hun. Ond, a bod yn gwbl ymarferol, ni all Ethnogerddoreg fodoli i raddau helaeth y tu allan i fframwaith y Brifysgol.

Yr ydym oll wedi bod yn ymwybodol ers tro ei bod yn bwysig i'r Brifysgol gymryd rhan ym mywyd y gymdeithas, ac am y deng mlynedd nesaf y berthynas rhwng y Brifysgol a'r gymdeithas fydd y berthynas bwysicaf, ac a fydd, mae'n bur debyg, yn berthynas hanfodol i ddwyn gwaredigaeth i sefydliad academiaidd o'i drafferthion ariannol. Wrth gwrs, bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r gymdeithas yn gyffredinol mewn amryw ffyrdd. Un peth y gall y Brifysgol ei gynnig, yn fwy effeithiol na'r un sefydliad arall, yw'r agwedd gymdeithasol honno a fu — ac a fydd bob amser, gobeithio — yn briod faes y system addysg, sef y cwricwlwm. Yn wir, gellir dweud am y cwricwlwm nid yn unig mai dyma ddull sylfaenol y Brifysgol o fynegi ei hymrwymiad i'r gymdeithas, ond mai dyma'r ffordd orau iddi wneud hynny.

Er dauddegau'r ganrif hon, bu'r genedl yn disgwyl i'r Brifysgol gyflwyno cwricwlwm academiaidd cadarn yn ymwneud â Cherddoriaeth Draddodiadol yng Nghymru. Nid yn unig y mae'n gyfrifoldeb cymdeithasol arni ymgymryd â'r sialens honno, ond y mae'n ddyletswydd arnom ninnau fel addysgwyr a cheidwaid gwybodaeth am ein diwylliant i gymryd yr awenau unwaith ac am byth.

Er i Ethnogerddoreg dyfu'n aruthrol o fewn yr hanner canrif ddiwethaf, ni ysgrifennwyd digon am y maes ar gyfer hyd yn oed gwrs rhagarweiniol. Y mae ethnogerddoregwyr ifainc wrthi'n llanw'r bylchau yn yr ymchwil ymhob cwr o'r byd, ond yma yng Nghymru yr ydym wedi anwybyddu rhan

hollbwysig o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol. Y mae'n drist gorfod nodi mai gan fyfyrwyr ymchwil o brifysgolion tramor (America yn anad un wlad arall) y gwnaed oddeutu 50% o'r ymchwil i Gerddoriaeth Draddodiadol Cymru. Onid oedd hi'n hen bryd, felly, i Brifysgol Cymru sefydlu cwrs yn ymwneud â Cherddoriaeth Draddodiadol Cymru (wedi ei sylfaenu ar egwyddorion ethnogerdoregol cadarn) fel y gellir ymestyn ymchwil cerddoregol yn y maes hwn yng Nghymru a'i astudio'n fwy trylwyr? Ar wahân i waith arloesol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ychydig o waith a wnaed mewn maes sydd, wedi'r cwbl, yn faes diddorol ac eang.

I'r rhai ohonom sydd wrthi'n ymchwilio i gerddoriaeth werin yn hytrach na cherddoriaeth gelfyddydol (er y gwelir y ffenomen ymhob maes) yr hyn sy'n ein taro yw maint ein hanwybodaeth. Ar ôl blynyddoedd o hyfforddiant a llwyddiant fel cerddorion, safwn ar ffin ein diwylliant ein hunain gan edrych arno yn ymwybodol nid yn unig o'r hyn'nas gwyddom ond hefyd mai ychydig a wyddom.

Gorfu i Brifysgol Cymru, felly, ystyried anghenion y gymdeithas; un ffordd hanfodol o wneud hyn yw drwy'r cwricwlwm, a oedd tan yn ddiweddar heb gynnwys unrhyw astudiaeth ddifrifol ym maes Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru.

Dylai'r prif ymchwil am wybodaeth yn y maes hwn ddechrau gartref — o fewn y gymdeithas yma yng Nghymru, a'r agwedd hon sy'n ein harwain at broblem arall, sef sut i ddatblygu defnyddiau sydd mor angenrheidiol i hyrwyddo diddordeb y Brifysgol ym maes Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru. Yr allwedd, gredaf i, yw "agwedd". Gall bwriad y Brifysgol fod gyda'r gorau yn y byd, ond ni fydd hyn o unrhyw fudd oni chyfeirir ef yn iawn. A gaf i, yn syml, osod rhai canllawiau yn nodi'r hyn y dylid ei wneud, a'r hyn *na* ddylid ei wneud, er mwyn o leiaf osgoi rhai o'r camgymeriadau a wneir fel arfer pan fydd corff a adwaenir fel y Sefydliad yn troi ei olygon at ei gymdeithas.

1. Ni ddylem geisio dysgu'r gymdeithas hyd oni fôm wedi dysgu oddi wrthi. Golyga hyn bod yn rhaid inni "dderbyn" ganddi cyn y medrwn gynnig ei digolledu. Ni fydd cynnig arian fel abwyd yn werth dim, oherwydd yr hyn a gais y gymdeithas yw parch, ac nid arian. Gwelir hyn ar hyd a lled y byd, fel y sylweddolodd cerddoregwyr yn fuan iawn, a chyda thristwch, weithiau. Ni all y Brifysgol ddysgu ond pan roir gwybodaeth iddi, gwybodaeth y bydd hi wedyn yn ei chadw a'i dadansoddi, yn cnoi cil arni a'i had-drefnu i'w gosod o fewn fframwaith y cwricwlwm. Ym maes Ethnogerdoreg y dull amlycaf o wneud hyn, wrth gwrs, yw trwy sefydlu *Archif*: casgliad o lawysgrifau, recordiadau, cerddoriaeth a dawnsfeydd a roddodd y gymdeithas i'r Brifysgol, a hithau'r Brifysgol, oherwydd y cyfleusterau sydd ganddi a'i safle cymdeithasol, yn medru cynnig sicrwydd goroesi a statws iddynt. Nid yw sefydlu Archif yn costio'n ddud i'r Brifysgol — dim ond ystafell sy'n

angenrheidiol. Nid oes angen staff ar y dechrau, ac ar gyfer menter o'r fath sicrhawyd eisoes gymorth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Y mae'n debyg y bydd hon yn Archif gwbl newydd o ran arddull a ffurf — yn wir, yn wahanol i'r hyn a alwem ni yn "Archif". Efallai y bydd yn cynnwys lluniau, tapiau, recordiau, ffilmiau, casetiau-fideo a micro-ffilmiau, ond bydd yn Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru, a thrwyddi fe roddir i'r Cymry hunaniaeth a chadwraeth gan rym pwysig yn y gymdeithas, sef y Brifysgol.

2. Mae'n rhaid inni dalu yn ôl i'r gymdeithas. Gallwn wneud hyn, er gwaethaf ein hanawsterau ariannol, drwy ddefnyddio'r cyfleusterau sydd gennym eisoes. Y mae'n haws i Brifysgol gael grant a chymorth ariannol nag yw hi i gymdeithas fechan leol. Dylid sicrhau bod yr Archif ar gael i'r gymdeithas yn ogystal ag i ysgolheigion ym myd cerdd. Dylid cadw'r cysylltiad agos sydd rhwng Prifysgol Cymru a'r tri chwmni darlledu, a'u hannog i baratoi rhaglenni'n ymwneud â maes Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru.

Bydd y gymdeithas Gymraeg yn ymateb yn yr un modd i'n diddordeb. Y mae gennym ni y cyfleusterau, a chanddi hithau y deunyddiau inni ddysgu oddi wrthynt. Yn sicr, ymatebir yr un modd i'r hyn y byddwn ni'n barod i'w rannu â hwy, yn dda ac yn ddrwg. Nid yw'r gymdeithas yng Nghymru am inni ddarparu ar ei chyfer — dymuna gael ei hystyried; ac os ydym o ddifrif yn poeni am ei dymuniadau, bydd hithau yn poeni'n wirioneddol am ein diddordebau ni.

*3. Beth a wnawn ar ôl casglu'r deunyddiau? A gawn ni fwrw ein bod, er enghraifft, wedi derbyn casgliad o hen recordiau 78 r.p.m. o ganeuon gwerin cynnar a oedd gynt yn bwysig yng ngolwg y gymdeithas? Dechreuwn ddadansoddi'r arddull, byddwn yn cyd-drafod y syniadau â'r gymdeithas a'u rhoddodd inni. A ydynt yn dal i ganu'r alawon eu hunain? Os ydynt, a gawn ni eu recordio ar dâp i ychwanegu at y recordiad disg sydd gennym? Pryd y byddant yn eu canu? Beth sy'n hardd ynglŷn â datganiad un canwr ond yn ddrwg ynglŷn â datganiad un arall? Sut y rhoir y darnau at ei gilydd, etc? Yn fyr, daw'r holl offer a ddefnyddir gan ethnogerdoregwyr ar hyd y byd ar waith yn ein cymdeithas ni. Bydd yr ymchwilydd wedi ei hyfforddi'n briodol ar gyfer casglu a dadansoddi deunyddiau o'r fath.

4. Cynnig cwrs Ethnogerddoreg (un yn cyfeirio'n arbennig at Gerddoriaeth Draddodiadol Cymru) drwy ein cwricwlwm; cwrs a fydd, os llwydda i ddenu myfyrwyr, yn darparu yr hyn na all ond y Brifysgol ei gynnig ar y lefel ymenyddol briodol — sef lefel graddau. Gall y Brifysgol borthi'r gymdeithas Gymraeg â'i gwybodaeth hi ei hun, yn awr wedi ei dadansoddi'n fwy ffurfiol ac wedi ei chyflwyno mewn ffurf academiaidd ac ysgolheigaidd sy'n fwy derbyniol.

AMLINELLIAD O'R CWRS

Am y tro cyntaf yn hanes y Brifysgol yng Nghymru darperir cwrs dewis i fyfyrwyr Cerdd yr ail flwyddyn ar faes Cerddoriaeth Werin Cymru (Ethnogerddoreg — gyda sylw arbennig i faes Cerddoriaeth Draddodiadol yng Nghymru).

Nod ac amcan y Cwrs

- a. Ennyn diddordeb ymysg myfyrwyr Cerdd (Cymraeg a di-Gymraeg eu hiaith) yn y traddodiad cerddorol yng Nghymru.
- b. Rhoddi cyfle i'r cerddor academiaidd werthfawrogi crefft y cerddor traddodiadol.
- c. Annog ymchwil pellach i faes Cerddoriaeth Draddodiadol yng Nghymru.
- ch. Trwytho unigolion cymwys i drin a thrafod Cerddoriaeth Werin ym myd addysg a'r cyfryngau, etc.

Gofynion derbyn

Rhaid bod yr ymgeisydd yn gerddorol ac wedi cwpláu cwrs Rhan 1 Cerdd (B.A. neu B.Mus.) yn y coleg hwn.

Ethnogerddoreg (gyda sylw arbennig i Gerddoriaeth Werin yng Nghymru), B.A./B.Mus., Yr Ail Flwyddyn.

1. *Rhagarweiniad i faes Ethnogerddoreg*

Ymdriniaeth â'r dulliau ethnogerddoregol o graffu ar gerddoriaeth ynghyd â'r agweddau gwahanol o ymchwilio i faes cerddoriaeth draddodiadol. Pwysleisir yr ymwybyddiaeth o gerddoriaeth fel ffenomen gymdeithasol.

2. *Cerddoriaeth yn y Gymdeithas Gymreig*

Diben pennaf yr uned hon o ddarlithiau yw cyflwyno'r agweddau amrywiol sy'n perthyn i faes Cerddoriaeth yng Nghymru.

- a) Y Traddodiad Canu Gwerin a Dawnso Gwerin: Mathau, nodweddion arddull, offerynnau, techneg, addurniadau, yr agweddau byrfyfyr, datblygiadau cyfoes. Ffynonellau printiedig/llawysgrifol/sain. Ffynonellau archifol. Astudiaeth o gantorion/perfformwyr dethol. Perthynas dawnsio a cherddoriaeth.
- b) Y Traddodiad Offerynnol: Cerddoriaeth yn y Gymru gynnar, olion archaeolegol ac iconograffaid, cyfeiriadau mewn llenyddiaeth gynnar Gymraeg. Ceinciau a cherddoriaeth telyn y 17eg a'r 18fed ganrif. Ffynonellau printiedig a llawysgrifol. Telynorion a chyfansoddwyr. Y Crwth Cymreig.

3. *Gwaith Maes, Trawsysgrifo a Dadansoddi*
Rhaid meddu ar wybodaeth am ddulliau gwaith maes ar gyfer astudiaeth o'r traddodiad llafar. Yn yr uned hon o ddarlithiau bwriedir cysylltu'r arfer o drawsgrifo'r deunydd sain â'r dosbarthiadau gwaith clust wythnosol. Ystyrir y dulliau dadansoddi o safbwynt ethnogerdoregol.
4. *Traddodiadau Cerddorol y tu hwnt i'r Gorllewin*
O gael astudio cerddoriaeth o'r tu hwnt i'r gorllewin, rhoir cyfle i'r myfyrwyr weld cerddoriaeth Gymreig yn ei chyd-destun Ewropeaidd yn ogystal ag mewn cyswllt byd-eang.
5. *Perfformio a gwrando*
Recordiau, tapiau, casetiau, casetiau-fideo, ffilmiau, etc.

Ethnogerdoreg (gyda sylw arbennig i Gerddoriaeth Werin yng Nghymru), B.A./B.Mus., Y Drydedd Flwyddyn.

1. *Traddodiad y Gân Gymreig*
Barddoniaeth a Cherddoriaeth Gymreig. Y caneuon Saesneg yng Nghymru. Ffynonellau printiedig, llawysgrifol a sain. Dulliau perfformio. Cerddoriaeth Gymreig yn ei chyd-destun Celtaidd.
2. *Cerddoriaeth Draddodiadol Ewrob*
Gyda golwg arbennig ar gerddoriaeth Cymru, astudir rhai agweddau ar y traddodiad cerddorol (gwerinol) yn Ewrob. Rhydd hyn gyfle i graffu ar gerddoriaeth Cymru yn ei chyd-destun Ewropeaidd.
3. *Gwaith Maes, Trawsysgrifo a Dadansoddi*
Parhad o gwrs yr ail flwyddyn.
4. *Cerddoriaeth Glasurol yn y Gymru Gyfoes*
Golwg ar dwf a datblygiad y traddodiad yng Nghymru, gyda sylw arbennig i gyfansoddwyr yr 20fed ganrif.
5. *Testun Ymchwil o dan arolygiaeth*
Traethawd estynedig ar destun perthnasol i'r maes dan sylw.
6. *Perfformio a Gwrando*

[The above outlines the scope, aims and methods of Ethnomusicology and considers the obligations of a national University in this field within the context of Welsh culture. Also included are details of the new course in Ethnomusicology, with special reference to Welsh Traditional Music, that is

now offered by the Department of Music, University College of North Wales, Bangor, Gwynedd. An English-language version of the above article can be seen in The Journal of the Guild for the Promotion of Welsh Music, Cerddoriaeth Cymru/Welsh Music, Vol. 6, No. 9 (Winter 1981-82), pp. 6-10, while full details of the course are available from the Academic Office of the College. Ed.]

LLÊN GWERIN A DEFOD A CHÂN

(Folk Lore and Ritual and Song)

D. Roy Saer

Go brin mai peth diarth o fewn i'r mwyafrif o ddiwylliannau yw i ambell gân boblogaidd ddal mewn bri tra bod yr amgylchedd cymdeithasol a esgorodd arni, neu a'i cynhaliodd, wedi llwyr ddarfod amdano — ac o bosibl wedi mynd yn gwbl angof, hyd yn oed. Nid oes amheuaeth na ddigwyddodd hyn rai ugeiniau o weithiau yn achos caneuon gwerin Cymraeg.

O ystyried y trawsnewid sylweddol a fu ar agweddau meddwl ac ymddygiad yng Nghymru yn ystod canrifoedd diweddar, mae'n syndod i gynifer o ganeuon oroesi nes cael eu croniclo a'u diogelu o fewn y can mlynedd diwethaf, dyweder. Ofer, efallai, fuasai disgwyl i'r wybodaeth-gefnid berthnasol hefyd fod wedi para'n fyw. (Ambell dro, yn ddiau, yr oedd honno eisoes wedi mynd ar ddifancoll cyn i'r croniclwr daro ar y gân. Ac yn aml, mae'n siwr, ni cheisiodd y croniclwr achub mwy na'r "eitem" ei hunan.)

A dweud y gwir, tenau ddigon yw'r manylion cefndir a gynigiwyd o fewn i glorïau'r Cylchgrawn ar draws y blynyddoedd. Mae'n debyg, gyda golwg ar hyn, mai un fantais sylfaenol fu i'r gân werin yn ystod y ganrif bresennol fynd yn gymaint o degan eisteddfodol a chyngherddol o fewn i ddiwylliant arbennig y Cymry. Wrth drawsblannu'r gân i awyrgylch ffurfiol y llwyfan fe'i trowyd yn "jwg ar seld" — neu flodyn tŷ gwydr, am well trosiad — hynny yw, fe wnaed ohoni gywreimbeth arddangosfaol neu sioe esthetig, gan feithrin mewn datgeiniaid a chynullidfa fel ei gilydd y gwerthoedd nodweddiadol a berthyn i'r llwyfan neuadd, heb sôn am rai'r llwyfan cystadlu. Eithr o'r braidd y gellid dadlau i'r trawsblaniad sbarduno digon o chwilyfrydedd — lai fyth ymchwil — i gyfeiriad ei chefnid traddodiadol fel y cyfryw.

O geisio cael at ei chysylltiadau cynharach, hwyrach y trewir ar rywfaint o dystiolaeth fewnol yng ngeiriau'r gân. Amled â pheidio, fodd bynnag, rhaid troi at ffynonellau ychwanegol. Gyda lwc, fe ddaw rhyw lygedyn o oleuni oddi ar lafar gwlad — o bosibl ar ffurf gwybodaeth a etifeddwyd o'r gorffennol. Dro arall, fe fydd yr ysgariad rhwng y gân a'i chefnid cysefin wedi digwydd yn rhy bell yn ôl, a phob cof a chyfrif am yr hen briodas wedi cilio o'r tir. Bryd hynny, rhaid palu mewn ffynonellau cynharach eto, sef mewn print neu lawysgrifen: buan y canfyddir mai geiriol, yn hytrach nag arluniol, yw'r ffynonellau arferol a fo'n agored i ni fel cenedl.

Hwyrach nad oes unrhyw ddosbarth o ganeuon lle bu mwy o golli golwg ar eu fframwaith cymdeithasol na'r rheini a oedd gynt yn hanfodol glwm wrth lèn ac arferion gwerin — ac yn arbennig, efallai, wrth ddefodaeth a oedd

wedi ei sylfaenu ar goel a chredo. Yn achos y rhain, proses a all brofi'n neilltuol o lafurus — ond weithiau hefyd yn doreithiog o ddadlennol — yw ceisio turio trwodd at yr hen gysylltiadau.

Bwriad yr ysgrif bresennol yw ystyried dwy enghraifft, neu ddwy sefyllfa, lle collodd y gymdeithas ei chof am y goel a'r digwyddiad traddodiadol, tra'n para i arddel y gân fel y cyfryw.

1. "*Oes Gafr Eto?*" ("*Cyfri'r Geifr*")

Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro;
Ar y creigiau geirwon mae'r
Hen afr yn crwydro.

Gafr wen, wen, wen!
Ïe, finwen, finwen, finwen!
Foel gynffonwen, foel gynffonwen!
Ystlys wen a chynffon
Wen, wen, wen!

Dyma bennill cyntaf y fersiwn ar y gân hon a ganodd W. Sylvanus Jones o Lanllyfni, sir Gaernarfon, i Dr. J. Lloyd Williams yng nghyfnod cychwyn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Fe'i cyhoeddwyd wedyn yn ail rifyn (1910) Cylchgrawn y Gymdeithas, ochr-yn-ochr â phum fersiwn arall a oedd wedi eu clywed mewn gwahanol rannau o Gymru, yn ogled a de'. O blith yr holl fersiynau hyn, nid oes amheuaeth mai'r uchod a fu'r un a gafodd gylchrediad eang yn y blynyddoedd wedi 1910; yn wir, fe ddeil yn dra adnabyddus heddiw, diolch yn arbennig i'w phoblogrwydd fel un o'r darnau safonol ar achlysuron *cyd-ganu* anffurfiol ymhlith Cymry Cymraeg (ac nid hwynt-hwy yn unig, chwaith). Ar noson gêm rygbi, neu mewn tŷ tafarn dro arall, neu ar wibdaith fws, er enghraifft, y mae iddi le blaenllaw gydag ambell emyn, a gân werin wahanol, a gân wersyll neu goleg, a gân bop.

Diddorol yw craffu ar yr hyn a ddywedodd Dr. Lloyd Williams un waith ynglŷn â *swyddogaeth* y gân hon. Yn 1910, yng nghyfrol gyntaf ei gasgliad *Welsh Folk Songs*, meddai ef:

Examples of this kind of song were once to be found in every district in Wales. They were purely "singing games" and were sung with great gusto by the farm hands to amuse themselves during the long winter evenings.

Gyda golwg ar y ganrif ddiwethaf yn benodol, hwyrach nad oes le o gwbl i herio'r dyfarniad hwn. Yn ystod y ganrif honno, dichon, yn wir, mai difyrru gweision ffermydd ar lofft stabal *ydoedd* prif swyddogaeth y gân

o fewn i'r diwylliant Cymraeg. Ond a bwrw golwg ymhellach wedyn yn ôl — fel a wnawn maes o law — fe geir bod rhan bwysig o hanes y gân ar goll yma.

Mae'n werth myfyrio ychydig uwchben y teitl hwnnw a ddefnyddiwyd mor aml ar gyfer y gân, sef "Cyfri'r Geifr". Gwelir bod Dr. Lloyd Williams, fel Golygydd, yn cyfeirio yn rhifyn cyntaf y Cylchgrawn (sef rhifyn 1909) at "the various 'Caneuon Cyfri'r Geifr' (*The Goat-Counting Songs*)",² ac iddo roi'r pennawd "Cyfri'r Geifr" wrth bob un o'r chwe fersiwn — ynghyd â'r cyfieithiad "Goat-counting Song", eto, uwchlaw'r gyntaf o'r rheini — yn rhifyn 1910. O fewn i'r un flwyddyn cynhwysodd yr enwau hyn yn *Welsh Folk Songs*, ac erbyn 1914 fe'u harferid gan olygyddion eraill: fel pennawd gan Mrs. Grace Gwynedd Davies yn ei *Alawon Gwerin Môn*, a chan Mrs. Herbert Lewis yn *Folk-Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd*, wrth gyfeirio at un fersiwn ar y gân fel "One of the many goat-counting songs sung all over Wales".

Ond pa bryd y bathwyd y teitl "Cyfri'r Geifr" i gychwyn, tybed? A oedd eisoes yn derm byw ar lafar gwlad yn rhywle neu'i gilydd erbyn ffurfio Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Ynteu ai Dr. Lloyd Williams ei hunan a'i lluniodd? Nid yw o fawr bwys *pwys* yn union a esgorodd arno — ar wahân i'r wybodaeth a ddyrai hynny am *gyfnod* y bathiad. Yr hyn sy'n fwy arwyddocaol i bwrpas yr ysgrif bresennol yw fod yr enw "Cyfri'r Geifr" mewn gwirionedd yn dra chamarweiniol. Gellid dadlau fod y fersiwn a gyhoeddodd Mrs. Herbert Lewis yn ymwneud â *nifer* y geifr, gan ei bod fesul pennill yn tocio arnynt o chwech i un, ond nid cyfrwng *cyfrif* yw'r gân (yn ei hamryfal fersiynau) yn ei hanfod. Mae perygl i'r berfenw roi'r argraff fod iddi gynt ryw rym galwedigaethol o ran cadw cyfrif ar eifr rhoddion yn pori'r mynydd-dir! Ac nid hynny mo'i swyddogaeth o gwbl, ddoe fwy na heddiw.³

Sylwer, gyda llaw, mai "Chwech o Eifr" yw'r teitl a roir yng nghasgliad Mrs. Herbert Lewis — oherwydd y mae hefyd yn dra awgrymog mai teitlau eraill heblaw "Cyfri'r Geifr" a ddarganfyddir yn ddi-ffael pan eir ati i olrhain hanes y gân mewn cyfnodau cyn sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. "Yr Afr" a nodir gogyfer â'r trefniant a ymddangosodd yn *Y Gyfres Gerddorol* o gwmpas 1868,⁴ a theitl "Canu'r Bugail/The Shepherd's Song" a gynhlyswyd gan Maria Jane Williams, Aberpergwm, yn 1844 yn ei chasgliad arloesol *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (ANAGM).

Am ryw reswm fe honnir yn y ffynhonnell olaf: "This is one of the early Welsh nursery songs". Bid a fo am ddilysrwydd hynny, ymddengys bod ffactor arall sydd yn ein tywys gam diogelach i'r gorffennol. Dywaid y nodyn golygyddol yn ANAGM i'r alaw ddod oddi wrth hen delynor ym Mhontneddfechan, ger Dyffryn Nedd, Morgannwg, ond i'r geiriau gael eu codi o lawysgrifau "Iolo Morganwg" — ac y llynedd, os cofiaf yn iawn, cefais ar ddeall gan Miss Eirian Jones i "Iolo Morganwg" yn ei dro dderbyn y geiriau oddi wrth Edward Jones, "Bardd y Brenin".

Dolen gydiol ychwanegol i'r un cyfeiriad yw bod y gân yng nghyfrol Maria Jane Williams yn cychwyn gyda'r geiriau "Naw gafr gorniog gynneu oedd genni" — oherwydd fe sonnir am gân "Naw Gafr Gorniog" yng ngohebiaeth Edward Jones, sydd heddiw i'w gweld ymhlith llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ceir yno, mewn gwirionedd, dystiolaeth i "Dafydd Ddu Eryri"; o'r Waunfawr, sir Gaernarfon, chwilio'n ddyfal am enghraifft o'r gân "Naw Gafr Gorniog" ar gyfer ei hanfon at Edward Jones yn Llundain. Yn ôl pob golwg yr oedd "Dafydd Ddu" yn dal i loffa amdani yn niwedd 1804, pan ysgrifennodd ar y 26ain Tachwedd at y telynor dall o Gaernarfon, Richard Roberts, gan ofyn am yr un gân (er cyfeirio ati y tro hwn o dan enw arall):

Ceisiwch gan Lewis Bwlchyffordd, yn ôl ei addewid i mi yn y Bettws, anfon i mi Gân y Geifr. Byddai dda gan Mr. Edward Jones y Telynor gael gafael arni, i ddangos nerth y côf y mae'r gan yn perthynu, sef dangos gan bwy y bydd y cof gorau.⁵

Am hen swyddogaeth y gân — mewn un rhan o'r wlad, beth bynnag — fe ddywaid hynyna ryw faint wrthym. Eithr fe ddatguddir llawer iawn mwy amdani mewn llythyr a anfonasai "Dafydd Ddu" at Edward Jones ei hunan dros bum mlynedd yn gynharach:

Amlwch 24th April 1799

Dear Sir,

I humbly apprehend that it is now too late to send anything towards completing your Book, otherwise I might send you some kind of a Copy of Naw Gafr gorniog, which after a long and diligent enquiry I found at Caernarvon, but I do not believe it to be very perfect, neither can I find any great beauty in the same. It appears that it was sung on *Noswyl Fair* that is to say, during the contest for the house; the Person that could repeat this song, or Rhapsody, whatever you will be pleased to call it, must have been possessed of a very tenacious memory, otherwise, he could not enumerate the nine different colours, though some of them, are in my opinion, rather unnatural: I mean, no Goat was ever seen that would answer to a certain colour mentioned in the Rhapsody. Therefore, for my part, I am willing enough to let it drop into eternal oblivion. (The colours are forced).⁶

Gogleisiol yw penbleth "Dafydd Ddu" ynglŷn â'r lliwiau afreal! Rhoes ef yma, serch hynny, gyfeiriad allweddol at gyd-destun cymdeithasol y gân mewn o leiaf un lle yn sir Gaernarfon ryw dro cyn 1799. Fe'i cenicid, meddri ganddo, ar Noswyl Fair yn ystod rhyw ymryson ynghylch y tŷ — a dyna bwyntio'n eglur ddigon at yr hen ddefod o ganu wrth y drysau ar achlysur Gŵyl Fair y Canhwyllau, a leolid ar yr ail o Chwefror. Diolch i

gyhoeddiadau ymchwil T.H. Parry-Williams, Trefor M. Owen, ac, yn ddiweddar, Meredydd Evans,⁷ y mae gennym bellach wybodaeth reit helaeth am natur a rhediad y ddefod honno — ac yn y gogledd-orllewin yn benodol, fel mae'n digwydd. Megis gyda gwŷr y Fari Lwyd yn neheudir Cymru, ceid yn y ddefodaeth Wyl Fair hithau ornest ar gân rhwng y gwaseilwyr y tu allan i'r drws ac "amddiffynwyr" y tŷ o'r tu mewn iddo. (Hwyrach, hefyd, fod yr un teip o ganu i'w glywed yn y gogledd-orllewin pan genid "carolau gwirod", sef carolau gwasael, wrth y drysau tua'r Nadolig.) Gwyddom, ymhellach, am y canu Gŵyl Fair y gallai gynnwys *sawl math* o gân, ond o graffu ar fersiynau "Oes Gafr Eto?" fe welir fod y teip hwn o gyfansoddiad yn ateb un math o ganu Gŵyl Fair i'r blewyn. Y mae yn ôl y patrwm traddodiadol.

A beth yn union ydoedd y patrwm hwnnw? Wel; heb fanylu, gan i'r ymchwilwyr uchod rhyngddynt gynnig trafodaeth lawnach eisoes, fe geir mai caneuon prawf, neu ganeuon gorchest, ydoedd nifer o'r eitemau Gŵyl Fair. A dyma rai o'r profion a osodai'r caneuon hyn ar yr ymrysonwyr:

1. Profi'r dychmyg, trwy gyfrwng posau.
2. Profi gwybodaeth.
3. Profi'r cof, neu'r gynnedd i ganolbwyntio sylw.
4. Profi'r medr i ganu penillion hirion ar un anadl. (Caneuon cynyddol oedd rhai o'r eitemau, a'u penillion yn graddol ymestyn.)
5. Canlyniad ceisio canu ar un anadl yw canu'n od o gyflym, a hynny yn ei dro yn gosod prawf ar y tafod a'r gwefusau.
6. Creder neu beidio, mae yna sôn hefyd am ganu cân gynyddol o'r traddodiad hwn gan hanner-ddawnsio ar yr un pryd!⁸

Nid yw'n anodd adnabod cyfraniad "Oes Gafr Eto?" yn y fath seremonïaeth. Nododd "Dafydd Ddu" ei bod "i ddangos nerth y cof", ac mae'n arwyddocaol yn y dull o'i pherfformio a oroesodd hyd heddiw fod iddo elfen gynyddol ynghyd â'r nodwedd o ddatganu'n chwimwth. A phrin mai cyd-ddigwyddiad yw fod un fersiwn ar y gân — fersiwn a gronclwyd yn Nwyran, Môn, yn nechrau'r ugeinfed ganrif — yn gân gwlwm-tafod, fel y dengys ei phennill cyntaf:

O! Beth yw'r achos fod garw flewyn mân ym mlaen barf gafr?

Am fod hi'n pori cyll a chelyn ar y cloddiau, clirwm clarwm:

Dyna'r achos fod blewyn garw mân ym mlaen barf gafr!

Gafr goch, bur goch, felan gynffon-goch,

Ystlys a chydyn a chynffon goch!⁹

Ategir yn blaen yma swyddogaeth "Oes Gafr Eto?" fel cân orchest, a thrwy hynny, mi gredaf, ei chyswllt hanfodol â thraddodiad yr hen ganu Gŵyl Fair.

Ni cheisir yn y fan hon drafod ar y syniad o ymryson am fynediad i'r tŷ, ond i astudwyr llên a defodau gwerin y mae hwn ynddo ei hun yn bwnc hynod bwysig, fel y dengys ysgrif ddiweddar gan Trefor M. Owen ar "The Ritual

Entry to the House in Wales".¹⁰ Y mae hefyd yn bwnc cydwladol, un sy'n teilyngu ymdriniaeth gymariaethol eang a allai daflu goleuni newydd, gobeithio, trwy gyfod a chymharu a chyferbynnu gwahanol fersiynau ar y ddefodaeth trwy'r gwledydd. Bedair blynedd yn ôl fe gaed un enghraifft werthfawr o groesgyfeirio ethnig yn erthygl yr anthropolegydd Americanaidd Melvin Firestone, "Christmas Mummung and Symbolic Interactionism"¹¹, lle cyfodir defodau cyfatebol yn Newfoundland, Denmarc, Gogledd Iwerddon a Chymru. Fel y sylwodd yr awdur, nodwedd arbennig ar ymweliad seremonïol y Fari Lwyd yng Nghymru yw'r ymryson llafar ar gân rhwng dwy garfan o wrthwynebwyr o bobtu i'r drws. Ystyrir hyn gan Firestone fel nodwedd a oedd, o fewn i gyfyngiadau daearyddol ei drafodaeth ef, yn unigryw. Mae'n briodol, felly, inni ein hatgoffa ein hunain o'r grym nodedig a fu i'r gerdd ymryson yng Nghymru ar hyd canrifoedd, a hynny mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, ac ymhlith coeth benceirddiaid megis ymysg rhigymwyr yr awen barod.

Wrth ystyried ffenomen yr her-ac-ateb mydryddol yn niwylliant ein cenedl mae'n bwysig cadw ar gof iddi weithredu mewn llawer math o sefyllfa gymdeithasol, o'r uchelwrol hyd at y gwerinol, ac ar lawer lefel celfyddydol. Bid siwr, yr oedd rhagor rhwng ymryson ac ymryson, ac nid yr un yn hollol fyddai amcanion a chyraeddiadau, dyweder, saernio cywydd ymryson yn ofalus a thaflu rhyw bwt o rigwm byrfyfyr yn llithrig. Ond wedi'r cwbl, y mae'r egwyddor o gynnal "ymryson canu" yn sylfaenol i'r naill sefyllfa a'r llall, a phriodol yw edrych ar ornestion llafar y gwaseilwyr fel rhan organig o'r gweithgarwch cenedlaethol hwn yn ei gyfanrwydd — gweithgarwch y bu bri arno yng Nghymru ers canrifoedd. O synio felly, prin y dyldid rhyfeddu wrth daro ar y ffenomen ynghlwm gynt wrth gynifer o'n harferion gwerin — nid yn unig wrth ddefodaeth y Fari Lwyd yn y deheudir neu Wyl Fair (a'r Nadolig yn ogystal) tua'r gogledd-orllewin, ond eto yn y "canu dan bared", ar Noswyl Nadolig, ym Meirion. Meddai un o ohebwyr Edward Jones, "Bardd y Brenin":

Canu dan bared is common in Merionethshire on Xmas Eve. If the people under the *pared* have the superiority in singing and wit, they claim admittance into the house, and a right to participate in the fare of it.¹²

Fe sylwir mai i ddefodau *tymhorol* y perthynai'r canu ymhob un o'r achosion hyn. Fodd bynnag, fel y ceisir ei ddangos yn awr, nid oedd ymryson mydryddol o bobtu i'r drws yng Nghymru yn gyfyngedig i achlysuron calendrig.

2. Y "Pwnco" Priodas ym Morgannwg

O fewn i draddodiad y Fari Lwyd ym Morgannwg, arferid y term "pwnco" fel enw ar y ddadl fydryddol rhwng y ddwy garfan. Wrth drafod traddodiad

arall yn yr un sir, cyfeirir hefyd (yn 1928) gan y casglwr llên-gwerin Tom Jones o Drealaw, Y Rhondda, at “bwnco mewn priodas”, sef pan ddôl parti priodfab at ddrws cartre'r briodferch i'w chyrchu i'r addoldy i'w phriodi. (Gwyddys, gyda llaw, fod y ffenomen olaf hon — ac, efallai, o dan yr un enw — yn bod hefyd gynt mewn rhai siroedd ymhellach i'r gorllewin.)¹³

Yn yr union gyd-destun hwn, ymddengys mai *adrodd*, yn hytrach na chanu, ydoedd cyfrwng yr ymryson. A beth am rediad y “pwnco” priodas? Ym Morgannwg, cynhelid ei ddeialog fesul pennill ac ar fesur triban, a'r argraff a geir yw fod y “pwnco” yno yn nodedig oherwydd iddo ddefnyddio, neu ymgorffori ymhlith penillion eraill, gyfres o benillion-fformiwlâ arbennig. Dyfynnir amryw enghreifftiau o'r rheini gan Tom Jones, Trealaw, ac yn ddiweddar gan Tegwyn Jones yn ei gasgliad cyfoethog *Tribannau Morgannwg*. Y dilyniant llawnaf a ddyry Tom Jones yw'r un canlynol o ardal Penderyn, yng nghwr gogleddol y sir. Cychwynnir gyda'r her o'r tu mewn i'r tŷ:

- A. Beth weli di'r mab penfelyn
Sy'n caru blodau'r dyffryn?
Beth sy' fan hyn, beth sy fan draw,
Yn peri braw i'r glanddyn?
- B. Mi wela' Banwen Byrddin,
Mi wela' Foel Penderyn,
Mi wela' Fforchygaran Wen,
Mi wela' Benrhiwmenyn.
- A. Beth gei di ar Banwen Byrddin?
Beth gei di ar Foel Penderyn?
Beth gei di ar Fforchygaran Wen?
Beth gei di ar Benrhiwmenyn?
- B. Caf lo ar Fanwen Byrddin,
Caf galch ar Foel Penderyn,
Caf rodio Fforchygaran Wen,
Caf fyw ar Benrhiwmenyn.
- A. Myn lo ar Fanwen Byrddin!
Myn galch ar Foel Penderyn!
Myn rodio Fforchygaran Wen!
Myn fyw ar Benrhiwmenyn!¹⁴

Mae'n wir nad oes yn y penillion hyn — ar wahân i'r cyfeiriad at “garu blodau'r dyffryn” — unrhyw sôn am ferch, ond y mae'r atebion “Caf lo . . .”, “Caf galch . . .” a “Caf fyw . . .” yn fwy ystyrlon nag a feddylid, efallai, ar yr

olwg gyntaf. Fe ganfyddir union arwyddocâd yr enwau “lleoedd” wrth graffu ar gadwyn arall o dribannau tebyg — rhai o ardal Cwm-gwrach a Resolfen, yn Nyffryn Nedd, y tro hwn — sy’n ymddangos ynghanol dilyniant o ddeuddeg pennill yng nghyfrol D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (1925):

- A. Os cewch chi ddynes gryo
Sy’n gallu gwau a gotro,
Beth welwch yn yr ardal hon
Fydd foddion iddi wrando?
- B. Mi wela’ Graig y Tyrra,
Mi wela’ bown(d) Rheola,
Mi wela siop y Dderi Fach,
Mi wela Bentra Clwyda.
- A. Beth gai di ’Nghraig y Tyrra?
Beth gai di ’mown Rheola?
Beth gai di’n siop y Dderi Fach?
Beth gai di ’Mhentra Clwyda?
- B. Caf goed o Graig y Tyrra,
Caf ddŵr o bown Rheola,
Caf fywd yn siop y Dderi Fach,
Caf fyw ym Mhentra Clwyda.¹⁵

Diffinir perthnasedd y ddeialog yn y tri thriban olaf gan y cwestiwn a deflir yn niwedd y triban agoriadol: “Beth welwch yn yr ardal hon/Fydd foddion iddi wrando?” Grym ymarferol a materol sydd i’r cwestiwn, ac felly iddynt hwythau’r atebion. Nid ar hap a damwain y dewiswyd yr enwau “lleoedd”, oherwydd fe’u defnyddir yn benodol i bledio achos y darpar-ŵr, sef i ddangos y modd y gallai ef *gynnal* gwraig a theulu o fewn i’r llecyn. Droeon hefyd yn y niferus dribannau o ardaloedd eraill a restrir gan Tom Jones a Tegwyn Jones fe welir addo diwallu’r un math o anghenion sylfaenol ar gyfer byw. Gellir dadlau, felly, bod yma isalaw o ddifrifwch, megis a weddai i achlysur mor dyngedfennol. Dichon, yn wir, nad ysgafn o bell ffordd oedd tarddiad ymryson fel hwn, er y gallai’n hawdd mai adloniadol yn unig oedd ei swyddogaeth erbyn cyrraedd cyfnod machlud y ddefod.

Am y cyfresi o’r fath benillion-fformiwla a gyhoeddwyd gan Tom Jones a Tegwyn Jones, ofer ceisio chwilio ynddynt am orchestwaith o safbwynt na dychymyg na mynegiant. Eithr nid cyrraedd hynny mo’u nod beth bynnag. O ddadansoddi patrwm safonol y dilyniant fe ganfyddir mai carfan y priodfab a ddewisai’r “lleoedd” i’w trafod, a chan fod y cwestiwn a deflir wedyn yn un traddodiadol — ac, yn ôl y dystiolaeth a gadwyd, yn gyfyngedig

i “Beth gei di yn/ar . . .” neu “Beth wnei di â . . .?” — yr oedd modd paratoi'r ateb nesaf hefyd ymlaen llaw, yn hytrach nag yn y fan a'r lle wrth y drws. O dan amodau felly, peth sumbolaidd fyddai'r rhan hon o'r “gwrthdaro”, ac nid gornest straenus. (Nid dweud yw hyn nad oedd y “pwnco” drwyddo draw yn rhoi cyfle hefyd i dipyn o greu o'r newydd, a hwnnw ar brydiau yn broses lled ddifyfyr. Gwyddys mai dyna'r drefn gyda'r Fari Lwyd, a dyna'n union fel y gwelai D. Rhys Phillips ddefod y “pwnco” priodas yntau tua Dyffryn Nedd:

Most marriages produced new pleadings — for the parties never lacked capable masters of the “triban” verse — though stock rhymes of local description and ancient use were also pressed into service.¹⁶

Y mae'n hysbys, ynglŷn â'r hen ddefodaeth briodasol yng Nghymru, mai un wedd yn unig ar yr ymryson am y briodferch ydoedd y gystadleuaeth lafar fel y cyfryw. Ceisid hefyd atal parti'r priodfab ar ei daith tua chartref y ferch drwy osod pob math o rwystrau corfforol ar ei lwybr — fel rhaffau, cerrig, cwinten, clwydi neu ryw wrthrychau lletchwith eraill. Ar ôl cyrraedd y tŷ o'r diwedd, fe geid y drws ynghlo — a hyd yn oed wedi ennill gornest y “pwnco”, hwyrach y byddai'n ofynnol darganfod y ferch (a oedd wedi ei chuddio o fewn i'r tŷ) ac yna gael ras geffylau tua'r addoldy cyn ei chipio'n derfynol.¹⁷ Fe welir, felly, fod yma *rite de passage* go estynedig wedi ei gwau o gwmpas achlysur ennill llaw'r briodferch — defodaeth a osodai gyfres o brofion ar y priodfab (ynghyd â'i bleidwyr), a'i orfodi i sefydlu ei hawl drwy arddangos grym ei fwriad a'i deilyngdod. Wrth nodi hynyna fe gofir fod yr un egwyddor yn ganolog, ganrifoedd lawer yn gynharach, yn chwedl “Culhwch ac Olwen”. Ac nid syniad cyfyngedig i Gymru, wrth gwrs, ydoedd gwisgo'r trobwynt-bywyd hwn â defodaeth yn galw am oresgyn anawsterau neu gyflawni “anoethau” — ceir enghreifftiau lu, ac enghreifftiau tra hynafol, o'r un syniad o fewn i ddiwylliannau eraill.¹⁸ Yr hyn a ymddengys yn anghyffredin, onid yn unigryw, uchod — fel yn achos defodau'r Fari Lwyd a Gŵyl Fair a'r “canu dan bared” — yw i Gymry Cymraeg roi mynegiant ychwanegol i'r sefyllfa-wrthdaro drwy gyfrwng yr ymryson llafar, mydryddol.

§

Nodwyd uchod, wrth ddechrau, mai trafod a wneid yma ddwy enghraifft neu ddwy sefyllfa “lle collodd y gymdeithas ei chof am y goel a'r digwyddiad traddodiadol, tra'n para i arddel y gân fel y cyfryw”. Cynigir gair ymhellach am hyn, felly, i gloi.

Eisoes, wrth sôn am wahanol fersiynau ar “Oes Gafr Eto?”, fe grybwyllwyd casgliad Mrs. Grace Gwyneddod Davies, *Alawon Gwerin Môn* (1914). Yng nghyswllt yr ysgrif bresennol, fodd bynnag, un o'r pethau mwyaf trawiadol ynglŷn â'r casgliad hwnnw yw fod ymron hanner ei gynnwys — sef tair cân allan o'r saith — o linach y canu Gŵyl Fair. Un o'r rhain, wrth gwrs, yw'r fersiwn gwblwm-iafod sy'n dwyn yr enw “Cyfri'r Geifr”. Ail enghraifft yw “Un o Fy Mrodryr I” — yn nechrau'r ddeunawfed ganrif trawyd ffurf arall ar hon, o dan y pennawd “Carol gwirod yn drws”, yn llawysgrif Richard Morris o Fôn. Ac am drydedd esiampl bosibl, troer at bennill olaf y gân “Cwyn Mam-yng-Nghyfraith” (sef “Caseg wineu, coesau gwynion, . . .”) — digwydd hwn eto yn llawysgrif Richard Morris, fel rhan o gân sy'n edrych fel un o'r eitemau gorchest (Dichon bod canu “wyneb a gwrthwyneb”, sef canu cerdd neu gwpledi neu linellau tuag yn ôl yn ogystal â thuag ymlaen, yn elfen arall yn yr ymryson ar Wyl Fair).

Eto i gyd, nid oes yn unlle yng nghyfrwl Mrs. Gwyneddod Davies unrhyw sôn am ganu Gŵyl Fair fel y cyfryw. Gellir dirnad, fodd bynnag, paham nas crybwyllir o gwbl yno. Y tebygrwydd yw i hen ddefodaeth Gŵyl Fair ddiplannu ym Môn, megis yng ngweddill y gogledd-orllewin, rai cenedlaethau cyn geni Mrs. Gwyneddod Davies. Gwyddys mai felly y digwyddodd dros y dŵr yn Arfon, er enghraifft. Meddai William Williams, Llandygái, mewn llawysgrif a ddyddir tua 1804: “In my memory Canu Gŵyl Fair or Candlemas singing was much in vogue, but that custom has now ceased”,¹⁹ a dangoswyd yn fanwl gan Trefor M. Owen²⁰ mai ofer yw chwilio ymysg ffynonellau'r ganrif ddiwethaf am unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb. Eithr fe arhosodd o leiaf dair eitem o'r hen fath o ganu gorchestol yn fyw ar lafar gwlad ymysg Monwysion nes i Mrs. Grace Gwyneddod Davies eu cofnodi, ddwy ohonynt trwy eu recordio ar y ffonograff oddi wrth Owen Parry, Tyddyn-y-gwynt, Dwyrân, tua 1914. Ni chollodd y caneuon hyn eu defnyddioldeb a'u grym adloniadol, wrth gwrs, wedi eu hysgaru oddi wrth y ddefodaeth a'u hymgorfforai lawer yn gynharach.

Peth go debyg a ddigwyddodd yn achos y “pwnco” priodas, fe ymddengys, er i'r ddefodaeth honno barhau'n fyw ym Morgannwg hyd ryw adeg yn y ganrif o'r blaen. Llwyddodd D. Rhys Phillips, yn ei *The History of the Vale of Neath* (1925), i gynnwys set o benillion “pwnco” a luniesid rywdro wedi tua 1820.²¹ Gwyddai hefyd ar ba achlysur ac ymha fodd yn union y cawsent eu llunio a'u defnyddio. Ond pan gyhoeddwyd tair cadwyn o'r penillion-fformiwla gan Tom Jones, Treallaw, yn 1926,²² yr oedd efe'n anymwybodol o'u cyswllt gynt â defodaeth briodasol. Mae'n siwr y gellir priodoli cryn arwyddocâd i hyn. Os oedd cysylltiadau gwreiddiol y penillion yn dywyll i'r lloffwr hwn a ymddiddorodd mor helaeth a manwl yn llên gwerin Morgannwg, yna nid yw'n afresymol tybio bod pob cyfrif am eu hen ddefodaeth wedi diflannu eisoes oddi ar gof gwlad yn gyffredinol yn y sir.

Erbyn diwedd 1928, fodd bynnag, yr oedd Tom Jones yntau wedi sylweddoli pa beth fuasai eu harwyddocâd — a chyhoeddodd wedyn (neu ailgyhoeddi, mewn ambell achos) bentwr o benillion perthnasol yn ei golofn “Llên Gwerin Morgannwg” ym mhapur-newydd “Y Darian”.²³ Wrth wneud hynny, ymddengys iddo “dacluso ynghyd” rywfaint ar y penillion. Y “tacluso” a gyflawnodd, yn ôl pob golwg, fu addasu’r penillion i gwplâu’r fformiwla safonol dros dri neu bedwar pennill — a hyn, fel y cyfaddefodd ei hunan, oherwydd “weithiau ni erys mwy nag un pennill, efallai ddau”.

A derbyn i’r mwyafrif (onid, yn wir, y cwbl) o’r penillion hyn fod unwaith yn rhan o “bwnc” priodas, fe welir mai’r hyn a fu’n gweithredu yma fu’r deddfau naturiol a berthyn i brosesau’r traddodiad llafar a chof gwlad. Yn y pen draw fe hepgorwyd nid yn unig rannau o’r dilyniant mwyaf cyflawn o benillion, ond hefyd rai o’r penillion-fformiwla eu hunain, gan gadw ond ambell uned drawiadol a hunan-ddigonol. Nid rhyfedd, sut bynnag, i sawl cynrychiolydd aros ar gof, o ystyried apêl eu cyfeiriadaeth leol, eu patrymwaith syniadol a seiniol (a apeliâu’n esthetig, tra hefyd yn gwneud y penillion yn berffaith hawdd i’w cofio), a’u hystwythder llafar.

Diau i lawer pennill fwynhau oes hwy oherwydd iddo hefyd gael ei *ganu*, a hynny’n estyn cymorth ychwanegol i’r cof, yn ogystal â dwysâu’r atyniad esthetig. Nodwyd yn gynharach mai *adrodd* a wneid wrth “bwnc” ar adeg priodas, eithr yr oedd penillion cyffelyb yn cael eu harfer ym Morgannwg wrth ganu i’r wedd ychen. Ebe “Cadrawd” yn 1909:

There are several allusions in the old Glamorganshire triplets by the plough swains, to the scenery from different points of view, which were composed on the spot while ploughing with the oxen, and sung to humour them while chained to the plough.²⁴

Yr enghraifft a ddyfynnir wedyn gan “Cadrawd” yw:

Fi wela’ Ben Bwlch Garw,
Fi wela’ waun Croeserw,
Fi wela’r ferch sy arna’ i chwant,
Fi wela’ Nantybedw.

Dichon mai ar achlysur priodas y cychwynasai hwn ei daith. Eithr anodd, onid amhosibl, yw gwahaniaethu’n bendant rhwng pennill a fuasai unwaith yn rhan o’r “pwnco” ac un arall annibynnol a luniwyd — ar batrwm fel un yr eitemau “pwnco” — ar achlysur cwbl wahanol. A beth, tybed, oedd gwir dras y gân “lofft stabal” honno a gofnodwyd yn Llandudno a’i chynnwys gyda’i cherddoriaeth yn rhifyn 1912 o’n Cylchgrawn, sef y gân “Beth Wneir â’r Wraig Benchwiban?”:

- A. Beth wneir â'r wraig benchwiban?
 Ffal di-ral di-ral di-ral di-ral,
 Beth wneir â hen gél truan?
 Beth wneir â thaflod heb ddim gwair?
 Ffal di-ral di-ral,
 Beth wneir mewn ffair heb arian?
- B. Ceir chwipio gwraig benchwiban, etc.,
 A cheirchio hen gél truan,
 Ceir llosgi taflod heb ddim gwair, etc.,
 A gochel ffair heb arian.²⁵

Er nad rhestru "lleoedd" sydd yma, y mae'r patrwm hawl-ac-ateb yn cyfateb i eiddo'r penillion "pwnco". Ond a fu'r penillion hyn rywdro yn rhan o unrhyw ddefodaeth briodasol? Ynteu a ydynt yn cynrychioli math o ganu ymryson a oedd gynt yn eang ei gylchrediad yng Nghymru, ac a addaswyd tua Morgannwg i ateb gofynion y gwrthdaro seremonïol ar fore'r briodas? Pwy a wŷr? Am y tro, gwell gadael y mater yn agored.

§

Wrth lunio rhannau o'r ysgrif uchod, daeth i'm meddwl droeon yr hyn a glywais bron ugain mlynedd yn ôl o enau'r awdurdod honno ar ganu gwerin, Dr. Maud Karpeles. Yn Y Rhws ger Y Barri yr oeddem, ar achlysur Cwrs Penwythnos cyntaf y Gymdeithas, a Dr. Karpeles yn traddodi'r brif ddarlith yno, ar destun "The Background and History of Folk Songs". Fel diweddsglo, dewisodd ein cyfeirio at ddihareb Lydewig. Ni chofiaf union eiriad honno, ond erys ei sylwedd yn glir yn fy nghof hyd heddiw: "Y sawl a gyll y geiriau, a gyll y dôn hefyd". Ar wahân i rym sumbolaidd y gosodiad hwn, gwyddom yn burion am ei gywirdeb o fewn i faes canu gwerin. Ar sail yr ysgrif bresennol, fodd bynnag, fe ellid mewn gwirionedd fathu dihareb arall, gyferbyniol. Un o'r pethau a amlygwyd uchod yw fod modd colli'r goel a cholli'r ddefod ond eto gadw'r gân.

[Dozens of Welsh folk songs have remained popular long after the disappearance of the environment which produced or mainly sustained them, sometimes even long after any record of their former social function had been erased from folk-memory. Hardly anywhere has the latter amnesia operated more frequently than in the case of songs which were once essentially bound up with folk belief and related ritual.]

The above article (which draws upon compensatory evidence from printed or manuscript sources) examines two situations where such a loss of memory had occurred, and in so doing attempts to explain the songs in terms of the

rituals which formerly included them and to account for their later retention as independent or divorced items. The first song discussed is the well-known “Oes Gafr Eto?”, sometimes mistakenly alleged to be a counting-song, which was actually a feat-song ritually employed at the door by entry-seeking wassailers at Candlemas (2 February) during the eighteenth century. This was in outer north-west Wales. The second example, which was non-calendric, comes from Glamorgan in the south-east and features a formulaic dialogue-sequence of stanzas that were recited alternately at the door when a bridegroom’s party came to claim the bride from her home on the wedding morning.

Various forms of metrical challenge-and-response at the door — usually, as a simulation of conflict, within a seasonal custom — seem to have featured prominently in Welsh folk-life in the past: see, for example, Trefor M. Owen, “The Ritual Entry to the House in Wales”, *Folklore Studies in the Twentieth Century*, ed. Venetia J. Newall (Woodbridge/Totowa, 1980), 339-43. Versified contests in Wales have, however, characterised bardic as well as folk tradition, and their end-products range from dignified and formal compositions to flippancy rhymes spun almost spontaneously. Ed.]

NODIADAU (NOTES)

1. Gw. tt. 90-93.
2. Tud. 19.
3. Diddorol, gyda llaw, fod yn rhifyn 1912 y Cylchgrawn gân gyfatebol, “Mae gen i ddafad eto./A honno heb ei chneifio...”, a ddefnyddid yn ystod y ganrif o’r blaen yn ardal Brynecrug, sir Feirionnydd, fel cân waith ar adeg cneifio defaid (CCAGC, Cyfrol I, Rhan 4, t. 201).
4. Gw. Huw Williams, *Canu’r Bobol* (Dinbych, 1978), 147. Cyfeirir hefyd yno at deitl gwahanol wedyn, sef “Mae Gafr Eto”, a ymddangosodd yn *Y Cerddor*, rhifyn Rhagfyr 1910, t. 137.
5. Dyfynnir o John Jones (“Myrddin Fardd”), *Adgof Uwch Anghof* (Penygroes, 1883), 35.
6. Llsgr. LIGC, t. 73.
7. T.H. Parry-Williams, *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Caerdydd, 1931); Trefor M. Owen, “Canu Gŵyl Fair yn Arfon” yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 25 (1964), 22-41, ac eto yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, V, Rhan 4 (1977), 159-77; a Meredydd Evans, “Y Canu Gwasael yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*”, *Llên Cymru*, XIII, Rhifyn 3 a 4 (1980-81), 207-35. Lluniwyd hefyd gan Rhiannon Ifans draethawd ymchwil ar destun “Y Canu Gwasael yn y Gymraeg” (Ph.D. Cymru, 1980), traethawd y bwriedir ei gyhoeddi.
8. “Watcyn Wyn”, “Can yr Ych a Tharw, Blaidd a Chi”, *Cymru* (1900), 139.
9. *Alawon Gwerin Môn*, gol. Grace Gwynedd Davies (Caerdydd, 1914), 18-19.
10. *Folklore Studies in the Twentieth Century*, gol. Venetia J. Newall (Woodbridge/Totowa, 1980), 339-43.
11. *Ethos* (Journal of the Society for Psychological Anthropology), 6, Rhan 2 (1968, Washington D.C.), 92-113.

12. Llsgr. LIGC 109, tud. 74, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
13. Am sylwadaeth Tom Jones, gw. "Llên Gwerin Morgannwg" yn rhifynnau 13 a 20 Rhagfyr 1928 o bapur newydd "Y Darian". Bron ddeugain mlynedd yn gynharach, sonia "Cadrawd" hefyd am "byncio" priodas yn ei ysgrif "Llên Gwerin Morgannwg" yn *Cymru*, V (1893), 182. Am drafodaethau ar hen arferion priodas yng Nghymru, gan gynnwys enghreifftiau o benillion "pwnco", gw. Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs*, 159-72, a Dafydd Ifans, "Lewis Morris ac Arferion Priodi yng Ngheredigion", *Ceredigion*, Cyf. VIII, Rhan 2, 193-203.
14. Ailatalnodwyd yma o rifyn 13 Rhagfyr 1928 "Y Darian".
15. Tud. 591.
16. loc. cit.
17. Gw., e.e., Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (Caerdydd, 1959), 162-67.
18. Gw., e.e., yr holl fotifau a restrir (H310-H359) o dan "Suitor Tests" yn Stith Thompson, *Motif-Index of Folk-Literature* (Copenhagen, 1956), Cyf. III, 398-408.
19. Llsgr. LIGC 821 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
20. "Canu Gŵyl Fair yn Arfon", *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 25 (1964), 41.
21. Tud. 591.
22. Yn rhifyn 7 Hydref "Y Darian".
23. Rhifynnau 13 a 20 Rhagfyr.
24. Dyfynnir yn Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), 29, o ysgrif gan "Cadrawd" yn y "Cardiff Times", rhifyn 3 Gorffennaf 1909.
25. Tt. 173-74.

CANEUON GWERIN CYMRAEG YN Y WLADFA (Welsh Folk Songs in Patagonia)

Shân Emlyn

Er fy mod wedi ymweld â'r Wladfa deirgwaith (yn 1975, 1979 a 1981) ac wedi treulio yn agos i dri mis yno i gyd, eto, dim ond braidd gyffwrdd a chodi cwr y llen a fu'n bosib i mi. Rwyf hefyd wedi darllen popeth y gallaf gael gafael arno am fenter yr ymfudo yn 1865. Y drwg ydy, gan fod y pellter o Gymru mor enfawr, mae'nna duedd i rywun geisio gweld a synhwyro gormod ar bob ymweliad. Yn ddelfrydol, dylid mynd yno am dri mis i astudio un agwedd yn unig. Ac eto, byddai hynny hefyd yn anodd, gan fod cymaint o'r agweddau yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn rhan o holl wead cymhleth y gymdeithas. Hwyrach bod a wnelo'r anhawster â'r ffaith fod fy niddordebau i yno mor amrywiol, ac efallai mai gwendid ar fy rhan i fu peidio â chanolbwyntio ar un agwedd yn unig. Et o i gyd, rwyf yn gyndyn o gydnabod mai felly y bu hi.

Beth am fynd yn ôl i gyfnod yr ymfudo? Credaf ei bod hi'n berthnasol i gofio'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny. Cyfnod yn dilyn yr "*Hungry Forties*" oedd hwnnw, pan welwyd miloedd yn gadael Cymru am wahanol rannau o'r byd. Rhaid i mi osgoi mynd ar ôl rhariant menter yr ymfudo, a'r rhesymau pam y bu i'r ymfudwyr adael Cymru. Gan ddod yn nes at deitl yr ysgrif hon, ni wnaf ond nodi dylanwad crefydd bryd hynny, a'r gwgu a oedd tuag at y ddawns, y ffidil, y delyn a'r alaw werin. Cysylltid y rhain i gyd â bywyd y dafarn, ac roedd bwlch anferth rhwng y byd a'r betws.

O sylweddoli mai'r Capel a chrefydd oedd angor yr ymfudwyr i'r Wladfa, digon tebyg mai ychydig o alawon gwerin a gludwyd allan efo nhw. Mae straeon fel y rhai am gapeli'r Wladfa yn y blynyddoedd cynnar yn gwrthod agor festriodd i gorau ymarfer ynddynt yn tystio ei bod hi'n wyrth bod'n ganu traddodiadol wedi digwydd ac wedi goroesi ynô o gwbl. Ffaith arall sy'n berthnasol, mae'n debyg, yw bod y rhai a wrthododd lynu at ddisgyblaeth neu gulni bywyd y Capel, gan droi at y dafarn a'r bywyd Sbaeneg, yn debygol o fod yn llai na brwdfrydig i gadw hynny o draddodiadau Cymraeg a oedd yn eu meddiant.

Fy ngwendid i ar ôl pob ymweliad â'r lle yw fy mod bob tro yn ceisio rhoi galwyn o argraffiadau mewn pot peint. Roedd (ac y mae) gen i ddiddordeb byw mewn atgofion hynafgwyr am y fenter ei hun, y cledi a'r brwydro fu i oresgyn problem tlodi a choncro'r tir anhydrin. O gofio'r cledi yma, mae'n sicr mai ychydig o hamdden fu gan y Gwladfawyr cynnar. Ac onid wrth hamddena y trosglwyddwyd ein diwylliant gwerin o un genhedlaeth i'r llall? Yn sgil hyn rhaid nodi hefyd bod y Gwladfawyr yn byw mewn ardaloedd anial, anghysbell, ac ar wasgar oddi wrth ei gilydd. Prin, felly, oedd y cyfle

iddynt gymdeithasu yn gwmnïoedd niferus, ac eithrio ar adegau arbennig fel cyfarfod blynyddol Cymdeithas Fasnachol y Camwy, pan dyrrai pawb at ei gilydd, neu pan gynhelid yr Eisteddfod yn flynyddol.

Beth oedd bywyd a gweithgarwch diwylliannol a chymdeithasol y Gwladfawr? Pwysleisaf eto mai canolbwynt eu bywyd oedd y Capel, a pha ryfedd mewn gwlad mor anial iddynt gael y fath flas a chysur wrth ganu emynau fel:

Rwy'n edrych dros y bryniau pell
Amdanat bob yr awr . . .

Pererin wyf mewn anial dir
Yn crwydro yma a thraw . . .

neu:

Ar fôr tymhestlog teithio'r wyf
I fydd sydd well i fyw . . .

Gallwn lenwi'r Cylchgrawn â dyfyniadau o emynau a fu'n gysur i'r Gwladfawr yn eu cyni a'u dioddefaint. Pa syndod, felly, fod stôr o emynau, bob pennill ohonynt, yn dal yn fyw ar gof disgynyddion yr arloeswyr cynnar? Cofier hefyd i Ddiwygiad '04-'05 gyrraedd Y Wladfa, a gellir gweld llyfrynau a phamffledi Evan Roberts ar silffoedd cartrefi'r Wladfa hyd heddiw.

Diddordeb arall a oedd gen i ar fymweliadau yno oedd clustfeinio ar eu hiaith lafar nhw, a dotio at rymuster eu hidiomau. Er enghraifft, pobol wrth sôn am rywun yn mabwysiadu plant yn dweud bod hwn a hon wedi "magu o'r galon". Dro arall, sôn wrthyf am ŵr nad oedd modd dibynnu arno fel "dyn ysgafn ei air", neu ddisgrifio gwraig â'r felan arni fel rhywun "sy'n dewis byw yn y Modd Lah". Gwladfawr ar un achlysur yn ofni fy ngweld yn disgyn dros ddibyn ac yn gweiddi arnaf, "Gwylia! Mae 'na ddibyn anaele'n y fan yna!" Cyfeirir at rywun sy'n goryfedd fel un "sy'n hoff o 'lychu'i big".

Dyma fi'n crwydro oddi ar fy nhestun eto, wrth geisio darlunio i chi pa mor amrywiol ydy'r agweddau ar fywyd yn Y Wladfa. Ar wahân i hyn i gyd, mae nhw hefyd yn ddiddorol eithriadol fel pobl — er eu bod nhw bellach yn bedwaredd a phumed genhedlaeth, mae llawer ohonynt yn dal i fod yn bobol dwy wlad. Rhai rhyfedd ydym, er ein gwaseidd-dra fel cenedl yn aml; a rhyfedd ein dycnwech hefyd. Ond, dyna fo: "Wrth gicio a brathu mae cariad yn magu".

Teimlais ar bob ymweliad â'r Wladfa y byddai'r lle yn nefoedd i Huw Williams, awdur y gyfrol *Canu'r Bobol*. Delir i ganu llu o unawdau a rhan-ganau rhwysgfawr a gwladgarol y ganrif ddiwetha, yn ogystal â'r rhai sy'n moesoli. Mae hyn yn brawf eu bod nhw, er anodded hynny yn y cyfnod hwnnw, wedi cadw cysylltiad â'r hyn a genid yng Nghymru ar y pryd. Yr hyn

sy'n drist yw nid eu bod nhw'n dal i ganu pethau felly, ond nad ydynt yn canu fawr iawn ddim yn y Gymraeg a gynhyrchwyd yn ddiweddarach na'r cyfnod hwnnw.

Gyda golwg ar deitl yr ysgrif hon, dyma rai cwestiynau perthnasol:

1. Beth a aeth allan efo nhw, o gofio'r cefndir crefyddol, a'r gwgu a oedd o du'r betws ar rai agweddau ar y diwylliant gwerin?
2. A newidiwyd rhywfaint ar y caneuon wrth fynd mor bell o Gymru?
3. Wedi i'r Cymry gyrraedd Y Wladfa, a grewyd ganddynt draddodiad o ganeuon perthnasol i'w hamgylchfyd newydd?
4. I ba raddau y dylanwadwyd arnynt gan ddiwylliant brodorol y wlad?

Yn fras, fel yr awgrymais eisoes, cymharol ychydig a aeth efo nhw, ac ni newidiwyd fawr ar y rheini. 'Chydig o dystiolaeth sydd 'na eu bod nhw wedi creu traddodiad newydd. Y gwir plaen ydy eu bod nhw (fel y dywedais yn barod) yn bobol dwy wlad, ac am genedlaethau wedi llwyddo i gadw'r ddau ddiwylliant ar wahân. I raddau gellid dweud bod y Gymraeg a'i diwylliant wedi goroesi cyhyd oherwydd iddyn' nhw am gyfnod hir eu hynysu eu hunain, gan ymwrthod â phob diwylliant estron. Y wyrth yw bod 'na weithgarwch Cymraeg o unrhyw fath yn dal i ddigwydd wyth mil o filltiroedd o Gymru, a hynny dros ganrif wedi'r ymfudo. Hyd y dydd heddiw ceir gwasanaethau Cymraeg, cymanfaoedd a thair eisteddfod flynyddol.

Pan fo criw o Wladfawyr yn cymdeithasu, emynau a genir gan mwya', gyda rhai eithriadau megis "Y Mochyn Du", "Cyfri'r Geifr" a baledi fel "Deio Bach" a "Hen Sam Bach". Mae 'na ddigon o dystiolaeth eu bod nhw wedi llunio llu o dopicaliaid, a'r geiriau bron yn ddieithriad i'w canu ar yr alaw "Lili Lon". Dyma i chi un:

Mi fu dwndwr mawr a chlebran
Am gael rywlio'r Wladfa'n hunan,
Ond lle hynny rywlio'n gilydd —
Neb yn 'morol am yr hewlydd.

Cytgan:
O! mae'r ffyrdd linc-i-lonc,
O! mae'r ffyrdd linc-i-lonc,
'N trethu poced, trethu 'mynedd,
Nes gwneud dyn yn rhegwr rhonc!

Galw "hewlydd" ar y rhytia,
Igam ogam hen rigola;
Weithiau'n llwch ac weithiau'n llaca,
Dyna hewlydd Patagonia!

Clywsoch sôn am luwch o eira,
Ond lluwchfeydd o faw sydd yma,
Lle bu 'lwynion yn ymgladdu
At y bothau gan strybachu!

Ar y ffyrdd rhag gormod rhedeg,
Y mae trapiau yn lle tyrpeg;
Tyllau egr i godymu
Wedi'u blastio efo rhegi!

Ac am bontydd dros y ffosydd,
Gou a thyllog benbwygilydd! —
Whew! o chwyth nes moelyd drosodd,
Neu agennau'n agor danodd!

Pan wy'n llusgo'm llwythau gwenith
Bum awr ar y rhytiau felltith,
Hercian, crecian, bydd fy wagen
A phob asgwrn yn fy nghragen!

Cwmwl llwch fel mwg o stemar,
Nes fy mogu, ddaw o'r ddaear;
Mwy o faw fydd yn fy mola,
Coeliwch fi, na fydd o fara!

A phan geisiaf fyned adre
Gyda'm wagen wag fy ngore,
Tolcian byddaf bendramwnwg,
Bron yn 'sgyrion â thorri 'ngwddwg!

Ac os disgyn ambell gawod,
Dyna'n halio wedi darfod:
Rhigol fwd a siglen dywydd
Fydd y rhytiau fuont hewlydd!

Bobol annwyl! Oes dim c'wilydd
Gadael gwlad fel hyn heb hewlydd?
P'le mae'r bwgan brain corfforaeth? —
Wedi mynd yn gorff marwolaeth!

Dim ond gan un neu ddwy wraig y ces i sail i gredu bod 'na alawon gwerin
ar gof yr arloeswyr cynnar. Bûm yn holi hen wraig oedrannus, Edith



*Mrs. Sara Macdonald yn Aberystwyth,
Ebrill 1982*

Williams, yn Nolavon. Wedi hir brocio'i chof trwy ganu llinell gynta' gwahanol alawon iddi, fe ddaeth i orffen sawl pennill ei hunan. Roedd llawer o'n hwiangerddi ar ei chof, ond gan berthynas iddi y ces i'r cynhaea' mwya' toreithiog — Sara Macdonald. (Hi yw mam Elvey Macdonald, sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ac yn gweithio i'r Urdd.)

Profiad arbennig oedd cael bod ar aelwyd Sara Macdonald. Crynhoai pobol o bob oed yn ei chegin, yn neiod a nithoedd, brawd a chwiorydd, a chymdogion — a phawb yn gwybod bod sgwrs ddifyr i'w chael yno bob amser. Ceir yno hefyd ddigon o ganu, y teulu'n canu yr hyn a glywsant gan eu rhieni, ac nid canu unsain a geir yno, ond pawb yn cadw at ran ei lais arbennig ei hun. Cafwyd hwyl garw wrth geisio cofio ambell bennill mewn baled hir, a mawr y tynnu coes ar yr un a anghofiai'i linell!

Cymeriad a phersonoliaeth gre' iawn yw Sara Macdonald, ac er yr holl anawsterau llwyddodd i fagu'i phlant a'r ŵyr i siarad Cymraeg. Y mae ei merch Edith yn un o arweinwyr y byd cerddorol yn Y Wladfa, ac yn gefn i'r bywyd Cymraeg. Diddorol oedd gwrandio ar sgwrs rhwng Sara Macdonald ac Edith ynglŷn â sefyllfa'r iaith — mae diflaniad yr iaith yn peri mwy o loes i'r fam nag i'r ferch. Dwedais fod Mrs Macdonald wedi llwyddo i fagu'i phlant i siarad Cymraeg, ac nid eu bod yn *Gymry* Cymraeg. Rhaid

pwysleisio mai Archentwyr o dras Cymreig sydd yn Y Wladfa, bellach, a rhai ohonynt yn siarad Cymraeg.

Er cryfed Sara Macdonald, er sicred ei ffydd Gristnogol, y mae hi hefyd yn berson dwys a theimladwy. Loes iddi yw gweld yr iaith yn edwino mor gyflym ac mae'n teimlo y bydd llawer o'u traddodiadau a'u ffordd o fyw yn diflannu hefyd yn ei sgil. Profiad amheuthun oedd cael bod yn ei chwmmi a chofnodi'i llais ar dâp. Yma eto, gwibiai'r sgwrs oddi wrth y canu i drafod amgylchiadau'r arloeswyr cynnar, cledi ymgartrefu yn yr anialwch, lle'r iaith a lle crefydd yn y gymdeithas, a'r brwydro yn erbyn y dylanwadau Sbaenaidd. Colli'r dydd y mae pob brwydr, bron, ac mae hi erbyn hyn yn unfed awr ar ddeg ar yr iaith, ac ar bopeth arall, felly, sydd ynghlwm wrthi.

Fe nodir isod yr alawon gwerin a glywais gan Sara Macdonald, ynghyd â pheth manylion am gefndir y teulu. Yn ogystal â'r caneuon hynny fe gefais y geiriau canlynol, a genid ar alaw "Y Ferch o Blwy Penderyn":

BALED FY SERCH

Rwy'n caru merch ar lannau'r Cynon,
Ac Olwen dlos Y Plasgoed yw;
Y hi sy'n chwarae tannau'm calon
Nes aeth fy serch yn enaid byw.
Chwaraeaf innau ar bur dannau
Telyn cariad, aur delyn serch,
Nes mae cynghanedd ein telynau
Yn gwynnu'n byd fel mab a merch.

Yn wyn mae'r haf, a gwyn yw'r gaeaf,
A gwyn yw'n dyddiau ni, fy mun,
Ond dydd priodi fydd y gwynnaf,
Yn wynnach fydd nag unpeth cun.
Yn wynna' gwyn yr wyt, fy nghariad,
A bargod aur yw gwallt dy ben;
Mae glesni'r asur yn dy lygaid,
A nefoedd yn dy galon wen.

Ychwanegaf yn y fan hon eiriau eraill a gefais gan un o hen deuluoedd Y Wladfa, sef y geiriau canlynol a genid ar alaw "Y Deryn Pur":

Y deryn pur â'r aden las,
Nid wyt yn gas gan undyn:
Paham yr ei i grwydro'n ffôl,
A dod yn ôl bob blwyddyn?
Ond rwyt tithau, fel rwyf innau,

Yn dyheu am estron fannau,
 Ac er hynny yn methu canu
 Nes dychwelyd* eto'n ôl i Gymru: [*dod?]
 Nid oes unman dan y nen
 Fel Gwalia wen, rwy'n credu.

Y deryn pur â'r aden las,
 Er maint yw blas dy ganu,
 A wnei di un gymwynas im? —
 Rwy'n gofyn dim ond hynny:
 Dos i Arfon dawel dirion
 Gafodd serch cynhara' 'nghalon;
 Gofyn iddi a oes ganddi
 Rhyw le go gynnes* rhwng ei chlogwyni: [*Gynnes le?]
 'Rwyf am fynd yno yn fy ôl
 A thawel gysgu ynddi.

Rwy'n sicr bod llawer o waith ymchwil i'w wneud eto yn Y Wladfa, er bod y rhai brwd ynglŷn â'r Pethe yn prinhaus. Oddi ar y Canmlwyddiant yn 1965 mae llawer mwy o fynd a dŵad wedi bod rhwng y ddwy wlad. Aeth yn arferiad, bellach, i gorau fynd allan yno a chyflwyno caneuon ffres i glustiau'r Gwladfawyr. Gyda'r dylanwad diweddar yma mae'n rhaid chwynnu a didoli ambell beth a genir yno heddiw. O dan yr wyneb mae llawer eto i'w ddarganfod, ond i gyflawni hynny mae'n rhaid wrth amser, a pheth prin yw hwnnw. Tasg anodd yw darbwyllo'r sawl y mae rhywun yn ei holi fod ganddo rywbeth gwerthfawr i'w drosglwyddo. Ymateb un a holais oedd, "‘Dach chi ddim isio gwybod am yn tona bach ni!" Ar ran y Gymdeithas ceisiais berswadio'r Gwladfawyr mai dyna'n union yw ein nod, sef cofnodi unrhyw beth sy'n dod o dan ambarél "traddodiad gwerin".

Fel yr awgrymais eisoes, digon arwynebol yw'r ysgrif hon, ac eto ymfalchiaf fod cymaint â hyn yn mynd i aros ar gof a chadw. Gobeithiaf ymweld â'r Wladfa y flwyddyn nesa' eto, a hyderaf y bydd gennyf maes o law atodiad i'w ychwanegu at yr hyn a geir yma.

Draw, draw tu hwnt i'r moroedd
 Mae brodyr inni'n byw . . .

Un ydynt hwy a ninnau,
 Un yw ein ffydd a'n hiaith;
 Emynau glân yr henwlad
 Yw mawl addoldai'r Paith;
 Ond cryf yw llif estroniaid
 A'u tery ar bob llaw:
 O! Arglwydd, cofia'r Cymry
 Ym Mhatagonia draw. (Nantlais)

Diolch i Phyllis Kinney am godi'r caneuon canlynol oddi ar y tapiau gwreiddiol. Gan Mrs. Sara Macdonald (g. 1911), gwraig tŷ o bentre'r Gaiman, y recordiwyd pob un o'r pump imi, yn ystod fy ymweliadau â'r Wladfa. Clywsai Mrs. Macdonald hwynt ar lafar gan ei hynafiaid, naill ai gan ei mam a'i mam hithau (a ddôl o Gwmaman ger Aberdâr) neu gan ei thad a'i dad yntau (brodor o Flaen-porth yng ngodre Ceredigion) — am fanylion pellach, gweler islaw'r caneuon. Ymhlith ymfudwyr 1865 y daethai'r taid a'r nain ar y ddwy ochr i'r Wladfa, ac yno y ganed rhieni Mrs Macdonald.

1. FFINISTR, FFANASTR!

(Finister, Fanaster!)

1. Gwen a aeth i geisio corddi, Rowl ac ati hi;
Eisiau menyfres oedd arni, Rowl ac ati hi;
Tra bu Gwen yn nôl y fuddai, Aeth y ci i fwytar hufen;
Ffinistr ffanastr, Ffinistr ffanastr, Dynes ryfedd iawn oedd Gwen!


1. Gwen a aeth i geisio corddi,
Rowl ac ati hi;
Eisiau menyfres oedd arni,
Rowl ac ati hi;
Tra bu Gwen yn nôl y fuddai,
Aeth y ci i fwytar hufen;
Ffinistr ffanastr, ffinistr ffanastr,
Dynes ryfedd iawn oedd Gwen!

2. Gwen a aeth i geisio pobi,
Rowl ac ati hi;
Eisiau bara ffres oedd arni,
Rowl ac ati hi;
Tra bu Gwen yn nôl y twmbren,
Yr hwch a aeth â'r toes i'r domen;
Ffinistr ffanastr, ffinistr ffanastr,
Dynes ryfedd iawn oedd Gwen!

Fe welir mai amrywiad ar alaw "Ar Hyd y Nos" sydd yma. Pan oedd Sara Macdonald yn ferch fach, cenid hon — gan gynnwys rhagor o benillion — iddi gan ei thad.

2. Y SAITH RHYFEDDOD

(The Seven Wonders)



1. Glywsoch ddwedyd am y cryman Aeth i'r cae i feddi'i
hunan Ac fe fedodd lwyth mewn diwrnod: Dyna un o'r saith rhyf-
-eddod. Trala la la, trala lala lala la.

1. Glywsoch ddwedyd am y cryman
Aeth i'r cae i feddi'i hunan
Ac fe fedodd lwyth mewn diwrnod:
Dyna un o'r saith rhyfeddod.
Trala la la, trala lala lala la.
2. Glywsoch ddwedyd am y mochyn
Aeth i'r cae i lwytho rhedyn
Ac fe lwythodd lwyth mewn diwrnod:
Dyna un o'r saith rhyfeddod.
Trala la la, trala lala lala la.

Arferai Sara Macdonald glywed hon — gan gynnwys hefyd benillion eraill — gan ei mam a'i mam hithau (a ddôl o Gwmaman, ger Aberdâr).

3. MYNWENT EGLWYS

(A Churchyard)

1. Haen o bridd a haen o gerrig, Yr A, B, C, Sydd rhyngof
i a chorff f'anwylyd, 1, 2, 3, A phedair astell wedi'u hoelio, A, B,
L ac O, P, Q; Pe bawn i'n well mi dorrwn honno, R ac S, T ac U.

Amrywiadau Pennill 2

Bar 2 Bar 4 Bar 6 Bar 7

C, Trwm yw'r plwm a thrwm yw'r cerrig, Yr A, B, C, Trwm yw calon pob dyn unig, One, Two, Three; Trymaf peth dan haul a lleuad, A, B, L ac O, P, Q, Canu ffârwel lle byddo cariad, R ac S, T ac U.

1. Haen o bridd a haen o gerrig,
Yr A, B, C,
Sydd rhyngof i a chorff f'anwylyd,
One, Two, Three,
A phedair astell wedi'u hoelio,
A, B, L ac O, P, Q;
Pe bawn i'n well mi dorrwn honno,
R ac S, T ac U.
2. Trwm yw'r plwm a thrwm yw'r cerrig,
Yr A, B, C,
Trwm yw calon pob dyn unig,
One, Two, Three;
Trymaf peth dan haul a lleuad,
A, B, L ac O, P, Q,
Canu ffârwel lle byddo cariad,
R ac S, T ac U.

Clywsai Sara Macdonald hon gan dad ei thad, sef Thomas Jones (a aned ym Mlaen-porth, Ceredigion).

4. Y GWCW FACH LWYDLAS

(Dear Blue-grey Cuckoo)



1. Y gwch fach lwydlas, Ble buost ti'r haf? - Mae
pawb yn sôn amdanat A'u calon yn glaf, A'u calon yn glaf; Mae
pawb yn sôn amdanat A'u calon yn glaf.



Pennill 2. Bar 3. Bar 6.
hanner Mehefin, Chwi hanner Mehefin, Chwi

1. Y gwch fach lwydlas,
Ble buost ti'r haf? —
Mae pawb yn sôn amdanat
A'u calon yn glaf,
A'u calon yn glaf;
Mae pawb yn sôn amdanat
A'u calon yn glaf.

2. [Ateb y gwch:]

Fy amser i ganu
Yw Ebrill a Mai
A hanner Mehefin,
Chwi wyddoch, bob rhai,
Chwi wyddoch, bob rhai;
A hanner Mehefin,
Chwi wyddoch, bob rhai.

Cenid hon gynt gan daid Sara Macdonald ar ochr ei thad — sef gan Thomas Jones o Flaenporth, Ceredigion — a hefyd gan fam Sara Macdonald.

5. TAIR CATH FECHAN (Three Little Kittens)

1. Tair cath fechan yn eistedd yn ddiddan, O'r bibell yn pwffian y
mwg: "O, Mam fach annwyl! Wnawn ni byth eto!" "Wnawn ni byth eto? Sut
ydach yn lecio Y wialen am fod yn rhai drwg?"
"Miaw! Miaw! Fe fuom yn gathod bach drwg! Miaw!"

1. Tair cath fechan yn eistedd yn ddiddan,
O'r bibell yn pwffian y mwg:
"O, Mam fach annwyl! Wnawn ni byth eto!"
"Wnawn ni byth eto? Sut ydach yn lecio
Y wialen am fod yn rhai drwg?"
"Miaw! Miaw!
Fe fuom yn gathod bach drwg!
Miaw!"

Clywsai Mrs. Macdonald hon gan ei mam a'i mam hithau.

[In 1865, driven from their homeland by economic, religious and political pressures, some 150 Welsh emigrants established a colony in Patagonia, Argentina. Their descendants are to be found there today; about 5,000 of these still use or understand the Welsh language, and certain familiar hallmarks of Nonconformist-chapel Welshness remain: the hymn-singing and preaching festivals and the competitive eisteddfodau (with their strong emphasis on poetry, as well as music). Shân Emlyn, who visited Patagonia in 1975, 1979 and 1981, writes above of this chapel-centred culture and its present decline owing to the population's firm identification with Argentina and its increasing adoption of the Spanish language.

The early colonisers were puritanically suspicious of traditional folk dance and music. However, although no Welsh folk songs seem to have been collected previously from Patagonia, Shân Emlyn tape-recorded a few examples — if usually incomplete — from Mrs. Sara Macdonald (b. 1911), a housewife from the village of Gaiman in the Chubut Valley. Included above are transcriptions of five of these — all of which were learnt by Sara Macdonald from her ancestors, and stemmed particularly from her paternal grandfather (born in southern Cardiganshire) or maternal grandmother (born near Aberdare, Glamorgan), both of whom reached Patagonia in 1865.

For Songs 1-4 above, variant-forms collected within Wales have previously appeared in the *Journal of this Society*. Individually, the five examples are:

1. (Incomplete) A comic catalogue of Gwen's domestic mishaps.
2. (Incomplete) The nonsensical seven wonders listed.
3. (Incomplete) A widely-sung lament in traditional stanza form, here interlaced with alphabet or numeral refrains.
4. (Incomplete) The most memorable exchange from a lengthier and well-known dialogue between poet and cuckoo.
5. A nursery rhyme that traces an altercation between a mother cat and her misbehaving kittens.

On the Patagonian colonisation, a recommended English-language source is R. Bryn Williams's bilingual *Gwladfa Patagonia 1865-1965/The Welsh Colony in Patagonia, 1865-1965* (University of Wales Press, Cardiff, 1965). Ed.]

CANEUON YCHWANEGOL/ADDITIONAL SONGS

6. CAINC YR ARADWR

(The Ploughman's Song)

Yn araf / Slowly

1. Fe gwyd yr haul er machlud heno, Fe gwyd y lloer yn
ddisglair eto, Cwyd blodau haf o'r ddaear dirion—Ond
byth, O! byth, ni chwyd fy nghalon. Ho! da 'machgen i.
Ho! dere, der - e. O! dere, dere. Ho! Hai ho!

1. Fe gwyd yr haul er machlud heno,
Fe gwyd y lloer yn ddisglair eto,
Cwyd blodau haf o'r ddaear dirion—
Ond byth, O! byth, ni chwyd fy nghalon.
Ho! da 'machgen i. Ho! dere, dere.
O! dere, dere. Ho! Hai ho!
2. Bûm edifar fil o weithiau,
Am lefaru gormod geiriau;
Ond ni bu gymaint o beryglon
O lefaru llai na digon.
Ho! da 'machgen i. Ho! dere, dere.
O! dere, dere. Ho! Hai ho!

Cân ychen o gasgliad pwysig y Parch. John Jenkins ("Ifor Ceri", 1770-1829). Fe'i gwelir yn ei lsg. "Melus Seiniau", sef Llsg. 1940A yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle rhestrir y gân fel enghraifft o Forgannwg. Yn achos yr ail bennill, cyfieithiad Saesneg yn unig a ddryr "Ifor Ceri", a rhaid fu codi'r ffurf Gymraeg uchod o *Hen Benillion*, gol. T.H. Parry-Williams (Llandysul, 1940), t.19.

An oxen-driving song from the important collection of the Rev. John Jenkins ("Ifor Ceri", 1770-1829). It is to be seen in his MS "Melus Seiniau", now MS 1940A at the National Library of Wales, where the song is captioned as being from Glamorgan. The two stanzas are independent and self-contained floaters, the first a triadically developed cry of heartbreak and the second in effect a proverbialism. Each is followed by the traditional oxen-call in an extended form.

7. GWRANDO, 'R DERYN DU ADEINIOG

(Listen, Winged Blackbird)




1. Gwrando'r deryn du adeiniog: Ei di drostwy'n gennad fwyn
At y ferch a gara'-i fwyaf, (A) dywed wrthi ran o'm cwyn;
Chwilia odreu plwy Llangoedmor (A) chadw'm cwnsel dan dy
fron Hyd nes cwrddot â lliw'r ceiros: Elen Siencyn ydyw hon.

1. Gwrando, 'r deryn du adeiniog:
Ei di drostwy'n gennad fwyn
At y ferch a gara'-i fwyaf,
A dywed wrthi ran o'm cwyn;
Chwilia odreu plwy Llangoedmor
A chadw'm cwnsel dan dy fron
Hyd nes cwrddot â lliw'r ceiros:
Elen Siencyn ydyw hon.

Cân arall o lsg. "Melus Seiniau". Cyfiosodwyd yno ddwy alaw wahanol — a chyhoeddwyd y gyntaf o'r rhain yn *CCAGC*, II, 227, eithr ni ychwanegwyd yr uchod (a oedd, yn ôl y lsg., "as sung in Carmarthenshire"). Yn y lsg., "Gwrando'r Deryn Du" yw'r pennawd a roir uwchlaw'r gerddoriaeth, a'r pennill a ddyfynnir uchod a welir yn *CCAGC*, eithr geiriau pennill cyntaf "Cân o alarnad hen ferch ddymgeledd" allan o'r gyfrol *Blwch o Bleser i Ieucydyd Cymru* (Caerfyrddin, 1816) a gynhwysodd "Ifor Ceri" yn ei lsg.

Another song from the MS "Melus Seiniau", where the tune is said to be "as sung in Carmarthenshire". The text above employs a device frequently found in Welsh song: that of despatching a bird as a love-messenger.

8. YMDDIDDAN RHWNG MAB A MERCH IEUANC (A Young Couple's Dialogue)



1. Y MAB:

Ow! f'anwyld fywiol fywyd,
Lân wynepryd, lawnbryd lon,
'Rwyf er ys amser dan orthrymder
A mawr flinder, brudd-der bron:
Gwêl fy nghystudd, gwen lliw'r gwin-
Dyn wyf beunydd dan ryw boen; wydd,
Dy gael di'n briod yma ar amod
Wna i'm hwylustod, hynod hoen.

2. Y FERCH:

Taw â'th gabledd sâl disylwedd!
Rhyw oferedd i myfi
Yw clywed cwynion iach ei galon
Dan rith blinderon, greulon gri;
Nid oes ar gystudd boenau beunydd,
Tyf llawenydd, ffrwythydd ffraeth;
Mi feddyliwn adnabyddwn:
Dy liw gwelwn lawer gwaeth!

Trydedd gân o lsg. "Melus Seiniau". "Dwy Ros Gochion" yw'r pennawd yno uwchlaw'r alaw — sy'n cyfeirio, debyg, at eiriau gwahanol a arferid arni. Unwaith eto, *Blwch o Bleser i leuencyd Cymru* yw'r ffynhonnell a nodir gan "Ifor Ceri" wrth odre'r un pennill o eiriau a ddyfynnir ganddo ef, ac fe welir oddi wrth y gyfrol honno (t. 32) mai "Gwilym Morganwg" (Thomas Williams, 1778-1835) oedd awdur y gerdd. Rhoddir uchod ddau o'i chwe phennill. Uwchlaw'r alaw ysgrifennodd "Ifor Ceri" y nodiadau "Caerfyrddin" a "Mesur Diniweidrwydd" — fersiwn ar yr olaf, wrth gwrs, yw'r gerddoriaeth.

*A third example from the MS "Melus Seiniau". There, the song is captioned "Dwy Ros Gochion" ("Two Red Roses") — which probably refers to a different set of words sung to this music. The source indicated for the single stanza quoted by "Ifor Ceri" is the volume *Blwch o Bleser* (printed in Carmarthen in 1816), from which the reply stanza above has now been obtained. Two glosses in the MS refer to Carmarthen — the town or county from which this melody was collected? — and to "Diniweidrwydd", the ubiquitous ballad/carol tune of which the above provides a variant-form.*

NEWYDDION CWTA/NEWS IN BRIEF

Cwrs Penwythnos CAGC, 1981. Cynhaliwyd ym Mhlas Tan-y-bwlch, Maentwrog, a darlithiwyd ynddo gan Miss Alice Williams, Miss J. Eirian Jones, Mrs. Shân Emlyn Edwards, Dr. Meredydd Evans a D. Roy Saer.

Cwrs Penwythnos, 1982: 24-26 medi, ym Mhlasy'r Dyffryn, Sain Nicólas, De Morgannwg, a darlithiau gan Dr. M. Charnell-White, Aled Lloyd Davies, Alun Davies, Yr Athro R.M. Jones a Wyn Thomas.

Cumann Cheol Tíre Éireann. Beth am ymuno â'r chwaer-gymdeithas yn Iwerddon? Am £3.50 (gwerth Gwyddelig) y flwyddyn, derbynnir cylchlythyron a chylchgrawn achlysurol *Éigse Cheol Tíre*. Am fanylion pellach, ymholer â'r Ysgrifennydd Anrhydeddus, Nicholas Carolan, 15 Henrietta Street, Dilyn 1.

Cylchgrawn canu-gwerin newydd. Croeso i *Taplas*, cyhoeddiad chwarterol dwyieithog, sy'n gwerthu am 20c. y rhifyn neu danysgrifiad blwyddyn o £1.50 (i'w anfon at Stuart Brown, 12/14 Stuart Terrace, Talbot Green, Morgannwg Ganol).

Recordiau diweddar: *Yr Hwntws* (Loco 1001, Brynbuga, Gwent), *Henffych Well!* gan Cilmeri (Sain 1236M), *Rhown Garreg ar Garreg* gan Plethyn (Sain 1226M), *Ar Log 3* (Sain 1218M) ac *Igam Ogam* gan Cromlech (Sain 1243M)

Gwyliau Gwerin. Ar gynnydd y mae traddodiad y rhain yng Nghymru. Eisoes cynhaliwyd rhai Aberystwyth (mis Mawrth), Llantrisant a Llangynwyd (3 Mai), Dinbych-y-pysgod (28-30 Mai), Islwyn, yng Ngwent (29-31 Mai), Gŵyl Ifan, ym Mro Morgannwg (19 Mehefin), Dolgellau (23-25 Gorffennaf) a Chas-gwent (24 Gorffennaf), a daw gŵyl fawr Pontardawe ar 20-22 Awst. Ar 6 Tachwedd, yn Theatr Clwyd, Y Wyddgrug, y cynhelir Gŵyl Werin Cymru eleni.

WFSS Weekend Course, 1981. *This was held at Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog, Gwynedd, and lectures were given by Miss Alice Williams, Miss J. Eirian Jones, Mrs. Shân Emlyn Edwards, Dr. Meredydd Evans and D. Roy Saer.*

WFSS Weekend Course, 1982: 24-26 September, at Dyffryn House, St. Nicholas, South Glamorgan, with lectures by Dr. M. Charnell-White, Aled Lloyd Davies, Alun Davies, Professor R.M. Jones and Wyn Thomas.

Cumann Cheol Tíre Éireann. *How about joining our sister-society in Ireland? For an annual subscription of £3.50 (Irish value), members receive occasional news-sheets and the journal Éigse Cheol Tíre. Further details available from the Hon. Secretary, Nicholas Carolan, 15 Henrietta Street, Dublin 1.*

New folk-music magazine. *Welcome to Taplas, a bilingual quarterly publication, available at 20p per issue or for an annual subscription of £1.50 (which should be sent to Stuart Brown, 12/14 Stuart Terrace, Talbot Green, Mid Glamorgan).*

Recent records featuring Welsh folk music (Welsh-language songs, plus instrumental): *Yr Hwntws (1001 from Loco, Usk, Gwent), Henffych Well! by Cilmeri (1236M from Sain, Penygroes, Gwynedd), Rhown Garreg ar Garreg by Plethyn (Sain 1226M), Ar Log 3 (Sain 1218M) and Igam Ogam by Cromlech (Sain 1243M).*

Folk Festivals. *Now an expanding tradition in Wales: already held this year have been those of Aberystwyth (March), Llantrisant and Llangynwyd (3 May), Tenby (28-30 May), Islwyn, in Gwent (29-31 May), The Midsummer Festival, in the Vale of Glamorgan (19 June), Dolgellau (23-25 July) and Chepstow (24 July), and the major Pontardawe Festival is scheduled for 20-22 August. This year, Gŵyl Werin Cymru (The Welsh Folk Festival) is at Theatr Clwyd, Mold, Clwyd, on 6 November.*

RHEOLAU CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

1. Enw'r Gymdeithas fydd "Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru" ("The Welsh Folk-Song Society").
2. Amcanion y Gymdeithas fydd addysgu'r cyhoedd ym maes Cerddoriaeth Draddodiadol Gymreig trwy gasglu, cadw a pherfformio'r cyfryw gerddoriaeth, trwy gyhoeddi enghreifftiau addas o'r cyfryw gerddoriaeth a thrwy hyrwyddo ymchwil i'w hanes yn llenyddol a cherddorol.
3. Ffurfir y Gymdeithas o aelodau a fo'n talu tâl-aelodaeth blyneddol yn ôl a benderfynir o bryd i'w gilydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.
4. Bydd gan bob aelod yr unawl i dderbyn copi o Gylchgrawn y Gymdeithas ac i fod yn bresennol a phleidleisio ymhob un o Gyfarfodydd Cyffredinol y Gymdeithas.
5. Swyddogion y Gymdeithas fydd Llywydd, Is-Lwyddion, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Golygydd, Trysorydd, Ysgrifennydd Cyffredinol ac Ysgrifennydd Aelodaeth, yr oll i'w hethol yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, heblaw am y Llywydd. Etholir y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i ddal eu swyddi am gyfnod hyd at dair blynedd yr un, heb fod yn agored i'w haillethol am o leiaf un flwyddyn wedi hynny.
6. Trefnir busnes y Gymdeithas gan Bwyllgor Gwaith a fydd yn cynnwys Swyddogion y Gymdeithas ynghyd ag un-ar-bymtheg o aelodau a etholwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, a phedwar o'u nifer i ymddiswyddo yn flynyddol heb fod yn agored i'w haillethol am o leiaf un flwyddyn wedi hynny. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith yr awdurdod i gyfethol hyd at ddau aelod ychwanegol, y rheini i'w hapwyntio am un flwyddyn yn unig, ond yn agored i'w cyfethol am gyfnodau ychwanegol fesul blwyddyn.
7. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Gymdeithas ar yr adeg ac yn y man a benderfynir gan yr aelodau mewn cyfarfod o'r fath, a heb fod yn hwy na chwe mis wedi diwedd blwyddyn ariannol y Gymdeithas.
8. Ac eithrio treuliau'r Ysgrifennydd, ni chaniateir unrhyw wario heb benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.
9. Archwilir Cyfrifon a Mantolen Ariannol y Gymdeithas yn flynyddol gan Archwiliwr a apwyntir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.
10. Trefnir gan y Pwyllgor Gwaith gyhoeddi Cylchgrawn o bryd i'w gilydd. Darperir hwnnw gan y Golygydd a'i gyflwyno i'w dderbyn gan y Pwyllgor Gwaith neu ei Is-Bwyllgor apwyntiedig, a fydd hefyd yn derbyn ac ystyried amcangyfrifon argraffu.
11. Hyd y cydnabyddir gan Ddeddfau Hawlfraint, bydd hawlfraint caneuon traddodiadol a gasglwyd, o ran cerddoriaeth a geiriau, yn eiddo i'r Cyfrannwr neu Gasglwr ac os adargreffir unrhyw rai o'r cyfryw ganeuon mewn unrhyw ffurf arall gan y Gymdeithas, rhaid sicrhau caniatâd y Cyfrannwr neu Gasglwr cyn cyhoeddi.
12. Os diddymir y Gymdeithas a chael bod, wedi clirio ei holl ddyledion ac ymrwymiadau, unrhyw arian yn aros, dylid rhoi neu drosglwyddo'r cyfryw arian i ryw sefydliad elusennol, diwylliannol neu gerddorol neu gorff elusennol a fo'n gweithredu yng Nghymru, gan sicrhau yn ddiethriad na throsglwyddir o'r gronfa i unrhyw gorff na fo'n gwahardd dosbarthu ei incwm ymhlith ei aelodau.
13. Ni newidir y Rheolau hyn mewn unrhyw fodd ac eithrio mewn Cyfarfod Cyffredinol o aelodau'r Gymdeithas, ac nid ystyrir namyn argymhellion cyfnewidiadau a fo wedi eu dwyn gerbron gan y Pwyllgor Gwaith ac a fo wedi eu harwyddo gan bump o aelodau'r Gymdeithas a'u derbyn gan yr Ysgrifennydd o leiaf bedair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. A bod unrhyw gynnig wedi cael adroddiad anffafriol gan y Pwyllgor Gwaith, ni chyfrifir ei fod wedi ei dderbyn oni phleidleisir drosto gan o leiaf ddeuparth yr aelodau a fo'n bresennol ac yn pleidleisio.
14. Beth bynnag am gynnwys y Rheolau uchod, ni newidir y cymalau parthed amcan, gwelliannau a diddymiant mewn unrhyw fodd a fo'n peri i'r Gymdeithas beidio â bod yn elusen yng ngolwg y gyfraith.

THE RULES OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

1. *The Society shall be called "Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru" ("The Welsh Folk-Song Society").*
2. *The objects of the Society shall be the education of the public in Welsh Traditional Music by the collection, preservation and performance of the said music, the publication of such examples of the said music as may be deemed advisable and the encouragement of research into its history both literary and musical.*
3. *The Society shall consist of members who pay an annual subscription as from time to time determined at the Annual General Meeting.*
4. *Every member shall be entitled to receive a copy of the Society's Journal and to attend and vote at all General Meetings of the Society.*
5. *The Officers of the Society shall be a President, Vice-Presidents, Chairman and Vice-Chairman of the Executive Committee, Editor, Treasurer, General Secretary and Membership Secretary, all to be elected annually at the Annual General Meeting excepting the President. Chairman and Vice-Chairman shall be elected to hold office for a period of up to three years respectively and shall not be eligible for re-election for at least one year thereafter.*
6. *The business of the Society shall be managed by an Executive Committee which shall consist of the Officers of the Society together with sixteen members elected at the Annual General Meeting, four of which shall retire annually and shall not be eligible for re-election for at least one year thereafter. The Executive Committee shall have powers to co-opt not more than two additional members, such members to be appointed for one year only, but eligible for co-option for further periods of one year.*
7. *The Annual General Meeting shall be held as and where determined by members at such meeting and not later than six months after the end of the Society's financial year.*
8. *No expenditure other than secretarial expenses shall be incurred without a resolution of the Executive Committee.*
9. *The Accounts and Balance Sheet of the Society shall be audited annually by an Auditor appointed at the Annual General Meeting.*
10. *The Executive Committee shall arrange for the publication of the Journal from time to time, which shall be prepared by the Editor and submitted for approval to the Executive Committee or its appointed Sub-Committee who shall receive and consider tenders for printing.*
11. *The copyright of collected traditional songs, music and words, as far as the Copyright Acts allow, shall be the property of the Contributor or Collector and if any such songs are reprinted in any other form by the Society, the permission of the Contributor or Collector must be obtained prior to publication.*
12. *If, upon winding up or dissolution of the Society, there remains, after satisfaction of all its debts and liabilities, any money whatsoever, the same shall be given or transferred to some other charitable, cultural or musical institution or charitable body operating in Wales, provided always that the funds shall not be transferred to any body which does not prohibit the distribution of its or their income among its or their members.*
13. *No alteration of these Rules shall be made except at a General Meeting of members of the Society, except such as have been brought forward by the Executive Committee and which must have been signed by five members of the Society and received by the Secretary at least four weeks before the Annual General Meeting. No proposal on which the Executive Committee has reported adversely shall be deemed to be adopted unless it receives the votes of at least two thirds of those present and voting.*
14. *Notwithstanding the foregoing, no amendment to the object, amendment and dissolution clauses shall be made which shall cause the Society to cease to be a charity at law.*

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chwi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwyllw rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu, cadw a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llynyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ugain rhifyn o'i Chylchgrawn, gan gynnwys dros 500 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau (gan arbenigwyr o Gymru a gwledydd estron), trafodaethau a chanu. Tua mis Hydref, hefyd, llwyfennir Gŵyl Werin Cymru, gŵyl undydd a drefnir ar y cyd gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru a'n Cymdeithas ninnau.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £2 i Oedolion, £3 i Wŷr a Gwragedd ynghyd, a £1 i blant, sy'n sicrhau copi o *Canu Gwerin*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas.

Ein Hysgrifennydd Aelodaeth yw:

Mrs. Alwena Morgan, Glan Mawddach, Y Ganllwyd, Dolgellau.

Ffôn: Y Ganllwyd (034 140) 635.

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?


The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research-work. By today, over twenty numbers of its Journal have appeared, including over 500 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures (by specialists from Wales itself and other countries), discussions and song. Around October, too, in conjunction with the Welsh Folk Dance Society, it stages the one-day Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival).

Annual subscription is £2 for Adults, £3 for Husbands and Wives jointly, and £1 for Children, which secures a copy of Canu Gwerin/Folk Song, the annual journal of the Society.

Our Membership Secretary is:


Mrs. Alwena Morgan, Glan Mawddach, Y Ganllwyd, Dolgellau.

Tel. Y Ganllwyd (034 140) 635.





2330160



Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.